YR YMOFYNYDD.

PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA.—PAUL.

MAWRTH, 1868.

ADDYSG DYMHOROL.

(SECULAR EDUCATION.)

Da yw genym weled y wlad yn dechreu canfod eisieu, ac i fod yn rhaid cael cyn byddo hir, rhyw gyfundrefn gyffredinol i weinyddu gwell addysg dymhorol (*secular*) i blant ein hoes—cyfundrefn o'r fath na fydd yn bosibl lai na chaiff pob plentyn, bydded ei rieni mor dylawd ag y byddont, ei ddanfon i'r ysgol, a'i gadw hefyd yn yr ysgol, nes y dysgo ddarllen, ysgrifenu, cyfrifo, deall daearyddiaeth, ac nes y caffo hyfforddiadau a'i gesyd ar ben y ffordd i gyrhaeddyd gwybodaeth o egwyddorion cyffreithiau iechyd ac anian yn gyffredinol. Beth bynag yw amgylchiadau dyn yn y byd yma, p'un ai tlawd ai cyfoethog, nis gellir amheu nad yw addysgiaeth dda yn amser ieuenctyd yn gynorthwy mawr iddo i dreulio bywyd defnyddiol iddo ei hun ac i ereill. Mae Cymru, Lloegr, a'r Iwerddon, yn mhell iawn yn ol mewn manteision addysg—yn mhellach hyd y nod na'r Alban, ac nis gallwn lai na chredu mai un o'r prif achosion fod yr Albaniaid fynychaf yn gwneuthur yn well, lle bynag y byddont, nag ereill, yw y manteision addysg a rydd eu hysgolion plwyfol iddynt pan yn blant. Anfynych y cyfarfyddir ag Albaniad yn Nghymru na Lloegr nad ydyw mewn amgylchiadau cysurus. Dynion sobr ydynt, ac yn medru ymddwyn yn brydferth. Mae gwahaniaeth mawr rhyngddynt a'r Gwyddelod. Truenus yw meddwl mor lleied yw manteision addysg i'r werin yn yr Iwerddon. Gwyddom am dref yn Nghymru lle mae llawer o Wyddelod genedigol o'r Iwerddon yn byw. Yn eu plith hwynt oll dywedir wrthym nad oes dim haner dwsin a fedrant air ar lyfr. Beth yw'r canlyniad? Tylodi, bryntni, a diffyg ymdrech a rhagddyfais. Nid oes neb hefyd yn fwy hawdd i'w twyllo na'r Gwyddelod. A ydym ni i gredu y gwrandawent ar y fath ddyhirod a Ffeiniaid America, pe buasent mor ffodiog a chael gwell manteision addysg yn eu hieuenctyd! Pe byddent wedi cael gwell addysg pan yn blant, pa gymaint bynag yw gormes yr Iwerddon, deallent mai ffolineb yw ceisio eu symud trwy godi gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth.

Pan ar ein rhodfa arferol un prydnawn, ys ychydig amser yn ol, canfyddasom olygfa a wnaeth argraff ddofn ar ein meddwl, sef bachgenyn oddeutu naw mlwydd oed yn torri ceryg ar ochr yr heol! Yn eistedd ar ei stôl wellt fach, curai ar y ceryg â'i holl egni, ac mor ddyfal ag un a fuasai wedi gweled pum rhagor o flwyddi. Nis gallasem lai na meddwl fod y plentyn hwnw yn cael cam mawr, a'r wlad hefyd, i fesur, yn cael cam trwyddo. Gofynasom i ni ein hunain faint o rinwedd, ac o wir Gristionogrwydd, all fod mewn unrhyw wlad a oddefai y fath gamwedd i blentyn tlawd trwy esgeuluso rhoddi addysg iddo yn amser ei ieuenctyd. Nid eisieu modd yw'r achos o hyn yn ein gwlad ni, oblegid nis gellir yn gyfiawn ddyweyd fod y wlad hon yn rhy lwm i roddi addysg i'w phlant—gwlad ag sydd yn talu dros ddeuddeg miliwn o bunau yn y flwyddyn i offeiriaid, ac am beth, atebed y darllenydd. Yn yr ysgol y dylasai y plentyn hwnw fod, ac nid ar ben carn o geryg, a phe ganesid ef yn un o daleithau Prussia, yn yr ysgol y buasai yn rhaid iddo fod, p'un a fuasai ei rieni yn gallu ei gynal yno ai peidio. Gobeithio ydym o ddifrif fod y dydd yn mron gwawrio ar Brydain pryd ag y bydd pawb rhieni dan yr un fath orfodaeth. Os nad ydym yn camsynied, mae rhyw arwyddion fod y dydd hwnw yn nesäu.

Bydd yn dda gan lawer o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD glywed i Gynadledd ardderchog ar addysg gael ei chynal yn Manchester ar yr 16 a'r 17 o fis Ionawr diweddaf. Gwahoddwyd yno ddynion o bob parth o'r wlad, o bob enwad, ac o bob math o olygiadau yn nghylch addysg, i'r dyben i drafod y pwnc yn ddiduedd a diragfarn, ac fe'i trafodwyd yn wir i bwrpas. Yr oedd yn sicr yn un o'r cynadleddau pwysicaf a gynaliwyd erioed yn y wlad hon i ymdrin â'r mater. Nis gallasai neb lai na chanfod i anerchiad rhagorol Mr. Forster gael cymeradwyaeth fawr gan y gwyddfodolion. Dyben ei anerchiad oedd dangos na wnai un gyfundrefn o addysg y tro, ond yr un orfodol. Dangosodd fod yr egwyddor orfodol wedi ei mabwysiadu er ys talm mewn deddfwriadaeth Brydeinig, ac wedi gweithio yn dda. Dilynwyd yr anerchiad gan ymddyddan maith ar gyfreithiau y llaw-weithfaoedd, ac wedi hyny gan ddadl ar estyniad bwriedig yr adranau gorfodol yn y cyfreithiau hyn at bob plant, pa un bynag a fyddant yn gweithio ai na fyddant. Ar ol ymdriniaeth faith, pasiwyd penderfyniad yn cymeradwyo rhoddi adranau yn yr ysgrif a fwriedir ei dwyn ger bron y senedd, i orfodi plant a esgeulusir i fyned i'r ysgol.

"Beth yw addysg orfodol?" medd rhyw un. "Pwy hawl sydd gan neb i orfod i mi anfon fy mhlant i'r ysgol? Onid oes hawl genyf i wneyd fel y mynaf?" Nac oes dim hawl genyt wneyd fel y mynot yn y mater hwn. Os y ti bia'th dŷ, mae genyt hawl i'w werthu neu beidio, fel y byddot yn dewis, ond nid oes genyt hawl i'w osod ar dân os y byddet trwy hyny yn peryglu meddianau un arall. Felly hefyd am dy blant. Dy eiddo di ydynt mewn un ystyr. Yr ydwyt yn

rhwym i wneyd dy ran i'w mhagu. Ond y maent yn eiddo y wlad hefyd, ac y mae eu hymddygiad dyfodol o'r pwys mwyaf iddi; o ganlyniad mae hawl ganddi i beri i ti gyflawni dy ran tuag at eu gwneyd yn ddeiliaid rhinweddol. Os na elli eu cynal hwynt yn yr ysgol, dyledswydd y wlad yw'th gynorthwyo.

Nid oes lle i amheu nad yw'r gyfundraeth wirfoddol wedi ffaelu. Cafodd drial teg, ac y mae y canlyniad yn amlwg i bawb. Gosodir ysgol i fyny, meddwn, ar yr egwyddor hon. Ffurfir pwyllgor, danfonir am *certificated master*, a *subscribir* yn helaeth at gynal yr ysgol. A thros amser, ä y gwaith yn mlaen yn hwylus, a gellid meddwl fod yr egwyddor wirfoddol yn bob peth ellid ddymuno. Ond yn mhen ychydig, gwelir arwyddion fod y brwdianwch yn dechreu oeri. Dichon fod anghydfod wedi cymeryd lle yn y pwyllgor. Mae un am gael ei ffordd a'i gynllun ei hunan, ac un arall am ei ffordd yntau. Anghofia ambell un hefyd dalu ei *subscription*. O dipyn i beth i lawr yr ä yr ysgol. Ar y cyfan nid darluniad anghywir o'r gyfundraeth wirfoddol ydyw hwn. Gellid ei brofi trwy amryw enghreifftiau.

Yn wir, peth afresymol yw dysgwyl ar neb na chawsont fanteision dysgeidiaeth eu hunain, ac am hyny na wyddant ei gwerth, i gyfranu yn helaeth tuag at gynal ysgol yn eu cymydogaeth. Dysgwyl arnynt wneuthur hyn, yw dysgwyl peth na wnant. Nid pell iawn o'r gwir fyddem, pe dywedem y cymera llawer un yn Nghymru fwy o drafael i fagu ceffyl na mab. Meddyliant mai nid peth anghymwys—yn wir mai peth eithaf iawn—yw gwasgu yr ysgolfeistr tlawd i dri a chwech neu haner coron y cwarter am ddysgu y mab i ddarllen, ysgrifenu, a bwrw cyfrif—am ei ddysgu i wneyd pethau a'u galluoga i fod yn ddefnyddiol yn y byd—tra yr un pryd yn talu yn rhwydd chwech cymaint er mwyn cael ebolyn a wna geffyl marchnadol. Gellid meddwl mai mwy o werth yn ei olwg yw'r ebolyn pedwarcarnol yn yr ystabal na'r un dwytroed tan ei gronglwyd. Y peth ag ef yw, mae'r egwyddor wirfoddol wedi ffaelu, ac y mae yn dda genym weled arwyddion fod yr Ymneillduwyr ar fedr ei rhoddi i fyny. Nid ydym yn beio arnynt am ei threio. Yn wir, y mae yn glod iddynt. Ar un olwg y maent wedi dangos cysondeb egwyddor. Afresymol fyddai dysgwyl i ddynion i ddyfod ar unwaith i ganfod y gwahaniaeth sydd rhwng egwyddor wirfoddol mewn crefydd ac mewn addysg i blant. Er ein bod ni yn pleidio dros addysg orfodol, nid oes neb all fod yn groesach i orfodaeth mewn pethau crefyddol. Mae y ddau beth yn hollol wahanol i'w gilydd. Credu ydym nad oes un peth yn fwy niweidiol i grefydd nag Eglwys Llywodraeth *(State Church)*. Yn mha wlad bynag y goddefir eglwys o'r fath, ac offeiriadaeth uwchafol, nis gall fod yno y cynydd mewn crefydd a ddylai fod. Meddwl ydym yn fwyaf neillduol wybodaeth grefyddol, oblegid mae offeiriaid y llywodraeth yn rhwym ar eu llw o wrthwynebu pob goleuni newydd mewn crefydd os y bydd yn

groes i erthyglau eu heglwys—erthyglau a wnawd er ys tri chant o flynyddau yn ol! Nis gall ychwaith fod rhyddid crefyddol yn berffaith mewn unrhyw wlad lle byddo Eglwys Llywodraeth. Peth annoeth, anghyfiawn, a drwg mewn llywodraeth yw cadw unrhyw enwad o Gristionogion mwy na'u gilydd dan eu hamgeledd neillduol. Dyben llywodraeth mewn pob gwlad yw amddiffyn meddianau a bywydau ei deiliaid. Dyna yw, neu o leiaf ddylai fod, eu hunig ddyben. Unrhyw lywodraeth, gan hyny, a gynal i fyny Eglwys i'w deiliaid, ac a gymerth feddiant o dir a chyfoeth a berthyn i'r genedl i'r dyben i dalu offeiriaid yr Eglwys hono, beiddiwn ddyweyd ei bod yn cymeryd arni gyflawni peth na sydd yn perthyn iddi. Hefyd, pethau na ellir eu cyssylltu yw Llywodraeth Wladol a Christionogaeth. Peth gwrthun yw eu cylymu mewn "glân briodas," yn hytrach "aflan briodas." Nid yw'r ddau barti ychwaith yn cytuno. Rhaid, gan hyny, mai drwg yw canlyniadau y fath undeb annaturiol. Yr unig beth a geisiwn gan y Llywodraeth, ac y mae genym hawl i ddysgwyl oddiwrthi, yw amddiffyn ein bywydau a'n meddianau. Gadawed i'w deiliaid i drefnu eu materion crefyddol fel y mynont. Nid oes arnynt eisieu iddi gynal i fyny Eglwys iddynt, a gallent fyw hefyd yn eithaf crefyddol heb eu hoffeiriaid.

Ond i ddychwelyd; peth hollol gwahanol yw manteision gwladol i weinyddu addysg dymhorol i blant. Yn gymaint ag i fod hawl gan y llywodraeth i gospi drwg-weithredwyr, mae yn ddyledswydd arni i beri i bob moddion cymhwys gael eu gosod mewn gweithrediad er mwyn galluogi ei deiliaid i ymgadw rhag troseddu cyfreithiau y wlad.

Pa fath gynllun fyddai oreu i orfodi addysg, nid ein lle ni yw penderfynu. Bydd yn rhaid i'r Senedd cyn bo hir ddyfeisio rhyw fesurau tuag at gynal ysgolfeistri ac ysgolfeistresi yn mhob man lle y byddo eisieu ysgol. Digon tebyg y bydd i dreth o ddwy geiniog yn y bunt —mwy neu lai, yn ol fel y byddo amgylchiadau yn gofyn—i gael ei gosod ar bob ardal er cynal yr ysgol, ac i alluogi y cyfryw a fyddont yn rhy dylawd i gadw eu plant yn yr ysgol, i wneuthur hyny. Rhaid fydd hefyd sefydlu pwyllgor yn mhob ardal i drafod materion addysg, ac i fod y pwyllgor hwnw yn atebol i'r Llywodraeth. Rhaid hefyd i'r ysgol fod yn hollol rydd oddiwrth sectariaeth, hyny yw, ni ddylid caniatau i syniadau crefyddol un blaid yn fwy na'u gilydd gael eu dysgu i'r plant, fel y byddo i blant rhieni o bob enwad gael eu dysgu yn yr ysgol yn ddidramgwydd. Yr ydym wedi cyfeirio yn barod at Prussia. Cynllun cyffelyb i hwn sydd mewn gweithrediad yno. Gorfydd ar y rhieni gadw eu plant yn yr ysgol hyd nes y byddont hyn a hyn o oed. Os y barna y pwyllgor fod y rhieni yn rhy dylawd i gadw eu plant yn yr ysgol, cynorthwyir hwynt i wneyd hyny. Mae pob plentyn yno yn rhwym o gael addysg cyn myned allan i'r byd.

D. Thomas

Bydd llawer o rwystrau, yn ddiau, ar y ffordd i sefydlu cynllun o'r fath yn y wlad hon. Ond yr ydym yn sicr na wna un cynllun ond yr un gorfodol y tro, ac y mae'r wlad yn galw am dano. Y rhwystr mwyaf fydd offeiriaid y Llywodraeth. Eu dymuniad hwy yw cael addysgiaeth plant yn eu llaw eu hunain hyd byth y gallont. Mae eu dyben yn amlwg, am hyny gwrthwynebant bob mesur a gynygir yn y Senedd os na fydd shâr y llew iddynt hwy. Dyma un o *fendithion* Eglwys Sefydledig. Mae gan offeiriaid y Llywodraeth ddylanwad ar foneddwyr y wlad, a chan y boneddwyr mae gafael ar yr etholwyr. Mae lle i ofni, gan hyny, na fydd aelodau y Senedd yn ddigon annibynol a diofn i gefnogi mesurau gorfodol oni fyddant yn ffafriol i'r offeiriaid. Mae yn wir fod *Reform Bill* newydd wedi pasio, ond ni fydd hwnw o fawr werth i'r wlad hyd nes y ceir y *ballot*. Heb hon, ni fydd ond megys corff difywyd, ac ni wyddai neb hyn yn well na'r Toriaid pan oedd yr ysgrif o flaen y Tŷ. Ond pa fodd bynag, trech gwlad nag offeiriaid, ac nag arglwydd hefyd, ac y mae'r wlad yn dechreu dihuno. Er maint y rhwystrau fyddant ar y ffordd, mae genym le i obeithio y sefydlir, cyn bo hir, gynllun, nid yn unig a wna addysg yn orfodol, ond hefyd yn fwy effeithiol, gan y bydd yn fwy o fewn cyrhaedd y bobl. Brysio wnelo'r amser.

YR HYN A WNAETH CRIST DROSOM NI.

(Parhâd o tudalen 3.)

Yr ydym wedi gweled beth wnaeth Iesu Grist dros y byd. Gadewch i ni yn awr weled beth a wnaeth drosom *ni*. Mewn gair, Efe yw'r Iachawdwr. Ond mor gynted, braidd, ag ydym yn dechreu esbonio ein meddwl, yr ydym yn gwahaniaethu oddiwrth eglwysi ereill. Y maent hwy yn dyweyd iddo ddyoddef a marw yn ein lle ni, fel ein dirprwywr, ac i fod Duw yn derbyn ei ddyoddefiadau Ef yn lle yr eiddom ni ein hunain, ac felly yr ydym ni yn rhydd; ac oblegid nad ydym yn credu fod yr Iesu yn ein hachub yn y ffordd hon, dywedir "nad oes Iachawdwr genym." Wel, ni a gyfaddefwn yn rhwydd nad ydym ni yn credu fod y Messia yn ein hachub yn y ffordd uchod. Y mae hon yn ymddangos i ni yn athrawiaeth gyfeiliornus; ond eto yr ydym yn credu yn drwyadl ei fod yn achub dynion, ac yr ydym yn ei garu fel ein Hiachawdwr. Ond pa fodd mae Efe yn ein hachub? Yn gyntaf, trwy ein dysgu i fabwysiadu meddylddrychau cywir am ewyllys Duw, a'n dyledswyddau ninau. Y cam cyntaf tuag at ffydd yw hwn, ac ufudd-dod iddo ydyw gwybod beth ydyw Duw, a pha beth y mae yn ei ewyllysio. Y cam cyntaf i wneuthur yr hyn sydd iawn ydyw gwy-

bod beth sydd iawn. Crist ydyw'r Iachawdwr ag sydd wedi cael ei ddanfon oddiwrth Dduw. Pan lefarodd wrth y torfeydd ar ochrau mynyddoedd Galilea, neu yn y deml yn Ierusalem, "llefarodd fel un âg awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion." Dyweda rhai am dano gyda gwawd fel hyn, "Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, ac yntau heb ddysgu?" Ond gwyddai Ef mai gair Duw oedd ganddo, ac oblegid hyny, gyda phriodoldeb y gallasai ddyweyd, "Nef a daear a ânt heibio, eithr fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim." Ioan xxiv. 35. Ac y mae y geiriau hyn wedi dysgu dynion ffordd y bywyd. Pa un ai ydynt wedi gwneuthur hyny yn haws neu peidio, y maent wedi ei wneuthur yn blaen—mor blaen fel nas gall yr hwn a edrycho lai na'i chanfod. Nid rhyw ffordd ddyryslyd ac anhawdd i'w chael allan mae'r Iesu wedi ei osod o'n blaen. Nid ydyw wedi dyweyd ond y peth nesaf i ddim yn nghylch hyd a lled, uwchder a dyfnder, unrhyw gred neillduol, ac i fod yn rhaid i ni gredu yn union fel hyn ar fel, onide fe'n demnier yn dragywydd. Dyma beth yw swm a sylwedd yr hyn a ddywedodd Efe, "Gwnewch i ereill megys ag y dymunech i ereill wneuthur i chwithau;" ac i fod yn rhaid i ni garu Duw â'n holl feddwl, â'n holl nerth, â'n holl enaid, a'n cymydogion fel ni ein hunain, ac i fod yn selog yn yr ysbryd, yn gwasanaethu yr Arglwydd. Yn nyddiau yr Arglwydd Iesu, yr oedd yr ysgrifenyddion wedi bod yn ddiwyd iawn yn nodi allan ffordd y bywyd, yn eu tyb hwy, trwy osod pwys neillduol a dialw am dano ar bethau allanol, megys gweddiau hirion ar rhai amserau penodedig, ac mewn manau neillduol, golchi y dwylaw, a llawer o bethau ereill nad yw gofod yn caniatau i ni i sylwi arnynt. Yr oedd eu ffordd hwy y fath, mewn gair, nas gallasai dyn cyffredin ddim o'i chadw; prin y gwyddai beth oedd. Felly hefyd gyda golwg ar yr athronwyr; yr oeddynt wedi bod yn siarad, ac ymresymu yn nghylch yr hyn oedd dda, ac yn iawn; ond nid oeddynt yn dwyn dim ffrwyth; yr oeddynt yn cadw eu hathroniaeth iddynt hwy eu hunain, ac yn diystyru y bobl gyffredin. Ar y llaw arall, daeth Crist, a gwnaeth bob peth yn ddealladwy. Gallasai pawb ddeall beth oedd, ag sydd i'w ddeall wrth garu Duw a charu dyn, edifarhau a gadael pechod; nid oedd yn ofynol cael Ysgrifenyddion ac Athronwyr i wneyd pethau fel hyn yn amlwg; gallasai plant bychain, a'r mwyaf anwybodus, ddeall cymaint a hyn, ac oblegid hyny fe ddywedir fod y bobl gyffredin yn gwrando ar Dywysog y Bywyd yn ewyllysgar. Ac nid dyma'r cyfan. Yr ydym yn ymofyn rhywbeth rhagor na dangos y ffordd i ni; yr ydym yn sefyll mewn angen o nerth a chyfarwyddid i gerdded ynddi. Dichon i ddyn wybod unrhyw beth, a dim yn alluog i'w gyflawni; os nad yw yn alluog i gadw yr hen gyfraith, nid yw ond o ychydig bwys a phwrpas i osod o'i flaen gyfraith uwch, a gorchymyn iddo i'w chadw. Pe buasai Crist wedi dyfod â deddf-lyfr newydd o foesau, neu gynllun o athroniaeth uwch, yn ofer y daethai; ac ni fuasai yn gwneyd mwy na llai na soddi dynion mewn anobaith, mwy nag oeddynt ynddo yn flaenorol; ond daeth Ef â chynorthwy yn gystal ag â dysgeidiaeth; ac mewn llawer o ffyrdd y mae Efe yn rhoddi nerth, anogaeth, a gobaith.

Y mae yn ein cynorthwyo trwy ein dwyn i deimlo cariad a thrugaredd Duw. I unrhyw ddyn ag sydd yn teimlo yn ddwys oblegid ei bechod; yr hwn sydd wedi gwneyd un ymdrech ar ol y llall i gael

gwared o hono, a chwedi syrthio drachefn, ac yn y diwedd ar roddi i fyny yr ymdrech mewn anobaith; i unrhyw ddyn ag sydd wedi pechu i'r fath raddau fel ag y mae yn ymddangos yn anmhosibl iddo braidd gael maddeuant, ac fel pe na byddai un gobaith ganddo; i'r fath, meddem, y mae rhywbeth anesboniadwy o obeithiol a chysurlawn yn nysgeidiaeth Crist yn nghylch trugaredd a thosturi Duw, yr hwn sydd yn edrych lawr ar ei blant camsyniol. Y mae dameg y Mab Afradlon wedi toddi llawer calon ag oedd wedi cael ei chaledu gan anobaith; ac y mae llawer pechadur, yr hwn oedd megys yn cael ei wasgu i'r llawr gan faich o bechod, wedi teimlo rhyw gysur nefolaidd, wedi cael gobaith newydd yn y geiriau bendigedig hyn,—"Deuwch ataf Fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch. Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf; canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon; a chwi a gewch orphwysdra i'ch heneidiau. Canys fy iau sydd esmwyth, a'm baich sydd ysgafn."—Matthew xi. 28, 29, 30.

Gan fod yr Iesu yn siarad felly wrthym, yr ydym yn gwybod nad ydyw Duw ddim wedi ein rhoddi i fyny; yr ydym yn gwybod mai yn enw Duw y mae Efe yn llefaru felly, ac yr ydym yn cael ein calonogi i fyned rhag ein blaen i wneyd ymdrechiadau o newydd i ymryddhau oddiwrth bob peth drwg, ac ymgyfoethogi yn mhob peth da.

Yn nesaf, y mae yn ein cynorthwyo trwy ddangos i ni ganlyniadau gresynus pechod. Anghenraid yw "mai dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd," i rai, sef y rhai nis gellir eu cyffroi o'u cysgadrwydd i ganfod yn amlwg y cyflwr anobeithiol ag y maent ynddo, ond trwy beri iddynt ddychrynu, a dymunol fyddai pe baem ni oll yn meddwl, nid yn unig am amynedd, ac hir-ymaros Duw tuag at y rhai sydd yn rhyfela yn erbyn gwendid a phechod; ond hefyd am y dyoddefaint a'r drygfyd yn y byd i dd'od—yr wylofain a rhincian danedd y farn hono, ar yr hon y mae y drygionus yn cau eu llygaid yn awr, ond yr hyn a'u gorddiwes bryd hyny.

Nis gallwn ni gredu y bydd y gosp am bechod yn dragwyddol; yr ydym yn sicr y ca ei gweinyddu mewn trugaredd, ac er daioni y pechadur; ond mor sicr a bod geiriau Crist yn wir, bydd yn faith a dychrynllyd, ac y mae yn anmhosibl darllen ei ddamegion yn nghylch barn heb gael ein cyffroi i wneyd ymdrechiadau o newydd i gerdded ar hyd y llwybr cul ag sydd yn arwain i'r bywyd tragwyddol. Ar y llaw arall, O 'r fath gymhelliad i barhau yn mhob gwaith da sydd yn y sicrwydd y mae yn roddi i ni am anfarwoldeb. I'r sawl ag sydd yn gorfod llafurio yn galed ddydd ar ol dydd—y rhai ag sydd yn cael eu gorddiwes gan aflwyddiant a themtasiynau rhy anhawdd eu dwyn braidd—y rhai sydd yn cael eu siomi yn eu dysgwyliadau mwyaf rhesymol yn ein barn gul ac ochrog ni—y rhai ydynt, ar rai adegau, yn cael eu temptio i ddwyn cynghor gwraig Job i ymarferiad; y fath gymhorth i ddyfalbarhau, ac i ddal i fyny yn wrol hyd y diwedd, sydd yn y meddwl; yr hwn sydd yn cael ei ail adrodd mewn mwy nag un ffordd yn ei ddysgeidiaeth Ef—"Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfanau." Ac y mae yn gwneuthur mwy na hyn eto i ni. Y mae nid yn unig wedi dysgu hyn oll i ni, ac felly i beri i ni i deimlo cariad Duw, a sylweddoldeb y nefoedd, a chwedi siarad llawer o eiriau anogaethol, ac o gysur; ond y mae hefyd wedi *byw* y cyfan. Bu fyw a marw drosom. Treuliodd ei holl fywyd yn yr ymdrech o gynorthwyo a bendithio

dynion—i droi eu calonau at Dduw—i wneuthur daioni iddynt. Wedi ei lanw â'r meddwl sut fyd nefolaidd fuasai hwn, pe buasai pob calon yn caru y Tad nefol, ac yn gwneuthur ei ewyllys Ef, ac yn gorfoleddu ynddo, aeth oddi amgylch gan wneuthur daioni. Yn fynych heb le i osod ei ben i lawr; yn dyoddef malais ac eiddigedd y llywodraethwyr; yn cael ei gamddeall gan ei bobl ei hun, y rhai oeddynt am ei wneuthur yn frenin; yn cael ei ystyried allan o'i bwyll; aeth oddi amgylch yn amyneddgar, heb weled sut oedd y gwaith yn llwyddo, ond yn ymwybodol mai gwaith Duw oedd, ac nas gallasai lai na llwyddo yn y pen draw. Ac yn y diwedd pan ei bradychwyd, pan oedd angeu yn ei aros, oddiwrth yr hwn y gallasai achub ei hun, pe y dewisai; ymddarostyngodd yn ewyllysgar ac yn dawel i ewyllys ei Dad—"O Dad, nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys di a wneler;" a dyoddefodd angeu y groes yn hytrach na gwyro am foment oddiwrth dyben mawr ei fywyd. Daeth i ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd; yr oedd wedi dwyn ei dystiolaeth iddo mewn geiriau, ac yn awr yr oedd ar selio ei dystiolaeth â'i waed. Daeth i berswadio dynion i droi at Dduw mewn edifeirwch a chariad. Dadleuodd ar eu rhan yn yr heol, ac o dŷ i dŷ; yn y deml, ac ar y mynydd, ac yn awr y mae yn dadleu ar eu rhan ar y groes. "Efe a waredodd ereill, ei hun nis gall Efe waredu," meddai y Phariseaid, mewn gwawd am dano, pan yn hongian ar y groes. Gwir i gyd; yn fwy felly nag oeddynt hwy yn wybod. Daeth i waredu ereill, ac y mae y byd wedi teimlo hyny wedi'r amser hwnw. Y mae bywyd a marwolaeth Crist wedi dysgu hyny yn fwy amlwg ac effeithiol nag unrhyw eiriau—mai gwell peth yw gwaredu ereill na gwaredu ein hunain. Ymdrechodd ddysgu ffydd a chariad i'r byd a fuasai yn gryfach na thristwch, ac angeu, neu farwolaeth. Rhoddodd ei hun i ddysgu hyn, a bu farw wrth wneuthur felly. Ymddangosai ei ddysgeidiaeth yn ofer am amser; ni fuasai dynion yn gwrando ar yr Efengyl hyny ag yr aberthodd ei fywyd er ei mwyn; a chwedi treulio ei fywyd felly, yn wrthodedig, ac yn cael ei ddiystyru, hi ydyw'r Efengyl fwyaf fendigedig wedi'r cyfan, ac y mae wedi gyru ei geiriau adref gyda gallu achubol i galonau dynion.

Yr ydym yn edrych ar y Messia fel ein Hiachawdwr. Os ydym yn credu ei ddysgeidiaeth; os ydym yn credu yn drwyadl yn ei fywyd; nid yn unig fod hyn a hyn wedi dygwydd, ond yn credu *ynddo*, ac yn teimlo—er cymaint yr erlidiwyd, y gwawdiwyd, ac ei dirmygwyd—mai y bywyd goreu ag y gallasai, ac oedd yn ddichonadwy i unrhyw gymeriad i fyw, ac i bob dyn i'w ganlyn, yna nis gall ein ffydd lai na'n hachub. Gwna ni i gywilyddio oblegid ein pechodau; cerydda ein hamheuaeth; cymer ymaith ein hofnau; gwareda ni oddiwrth ddrygau y byd—dwg ni at Dduw. Nid crediniaeth yn unig yn ei athrawiaeth a'n gwared, ond cred ynddo Ef. Onid yw o werth bod yn ddiolchgar am dano? I ni ymddengys yn bob peth! Dyma'r waredigaeth, neu'r achubiaeth ag ydym yn sefyll mewn angen am dani. Nid myned â ni i'r nefoedd (wedi croesi'r biliau) pan yn marw; ond ein gwneuthur ni yn well dynion a menywod; yn fwy geirwir a chariadus, ac yn fwy amyneddgar a duwiol yma. Nid yn unig ein gwneuthur yn *fit* i farw, ond yn gymhwys i fyw. Os felly ydyw gyda ni, nid oes achos i ofni y dyfodol. Nid rhyw feistr caled yw ein Duw ni yn y byd hwn, fel ag i beri ofni ymddiried ein hunain iddo yn y byd i ddyfod.

Bydded i ni tra yma ar y llawr, ymdrechu "gweithio allan ein hiachawdwriaeth ein hunain trwy ofn a dychryn." Y mae ein Creawdwr daionus yn edrych i lawr arnom mewn trugaredd, ac y mae ein Hiachawdwr yn dysgwyl i'n cydnabod fel ei ddysgyblion.

"Gwyn ei fyd y gŵr sydd yn goddef profedigaeth; canys pan fydd profedig, efe a dderbyn goron y bywyd, yr hon a addawodd yr Arglwydd i'r rhai a'i carant Ef."—Iago i. 12.

B. H.

Barddoniaeth.

"MYFI YW'R FFORDD, A'R GWIRIONEDD, A'R BYWYD."

Pwy yn nghanol cynhwrf bywyd,
Lle nid oes a'n gwna ni'n llon,
Pwy sy'n dangos dros y tonau,
Fryniau harddach gwlad na 'hon?
Pwy a'n tywys? pan y crwydrom,
Pwy a'n dwg ni eto 'nol?
Crist yw'r *ffordd*, Crist a'n harweinia,
Crist a'n cymer yn ei gol.

Pan fo ofnau yn ein blino,
Pan fo t'wyllwch du'n ymdoi,
Pan fo c'wilydd yn gormesu,
Pwy all gymhorth i ni roi?
Mae pelydrau'r nef o'n hamgylch,
Yn dysgleirio ar y llawr;
Haul *gwirionedd* sy'n llewyrchu,
Mewn gwirionedd pur yn awr.

Pwy sy'n lloni ein calonau
A gorfolaidd peraidd pur?
Pwy sy'n dangos, yn ein tristwch,
I ni wlad heb boen na chur?
Pwy, yn ngafael ingoedd angeu,
A dawela'r galon drist?
Pwy yw'r *ffordd?* pwy yw'r *gwirionedd?*
Pwy yw'r *bywyd?*—Iesu Grist!

Alman.

"EWCH I WEITHIO."

Cynghor byr iawn yw hwn, mae yn wir, ond un pwysfawr yw. "Ewch i weithio!" Mae natur yn sisial y cynghor hwn yn nghlust pob dyn. Duw osododd y cynghor yn ei genau hi, a hithau a'i rhodda i bob dyn ar wyneb y ddaear. "Cerdd i weithio." Nid oes dim i'w gael ag sydd o un gwerth heb weithio am dano. Ni welwn nad oes dim yn segur yn y greadigaeth. Mae pob cymal o honi yn gweithio, am hyny ni ddylem ninau fod yn segur. Mae natur yn dangos i ni fod pob gronyn o'r greadigaeth ar waith ddydd a nos—cyfnewidiad gwastadol yn myned yn mlaen yn mhob peth—pethau yn pasio o un

cyflwr i'r llall. Y tir o dan ein traed, yr awyr yr ydym yn anadlu, pob peth a gyffyrddwn, a archwaethwn, ac a handlwn, hyd y nod ein hesgyrn, ein gwythienau, ein cnawd, ein gwaed—mae gweithrediad parhaus yn myned yn mlaen. Nid oes dim yn segur. "Gwaith, gwaith," o hyd yw llais pob peth. Nid oes dim yn y greadigaeth yn aros yn yr un cyflwr—yr un sefyllfa. Mae hyd y nod darfodedigaeth ac angeu yn elfenau bywydaeth a gweithrediad newydd. Os yw pob peth, gan hyny, mewn gweithrediad yn y greadigaeth oddi amgylch i ni, onid gwarth o'r mwyaf yw i ti, O ddyn! fod yn segur ac yn ddigynydd.

Yr esgus gwaelaf all fod dros segurdod yw i neb ddyweyd nad oes ganddo ddim i'w wneuthur. Gwarth o'r mwyaf i greadur rhesymol yw, nad oes ganddo waith. Nid oes un drwg all fod yn waeth na charu segurdod. Pa un a ydym wedi ein hamddifadu o'n gorchwylion o herwydd rhyw amgylchiad annymunol, neu ynte nad oes arnom angen gweithio am ein bod yn meddu digonedd, yr ydym yn rhwym fel creaduriaid cyfrifol i Dduw, i greu rhyw alwad, rhyw swydd, rhyw waith, er mwyn cadw galluoedd ein cyrff a'n meddyliau mewn bywiogrwydd parhaus. Dylai fod gan bob dyn ryw ddyben mewn bywyd—rhyw beth ag y mae yn werth iddo fyw er mwyn ei gyflawni. Rhagoriaeth mewn rhyw alwad neu gilydd, defnyddioldeb i'n cyd-ddynion yn rhyw ffordd neu gilydd, ddylai fod chwenychiad ac amcan pob dyn.

Yn nesaf, cymerwch ofal fod eich dyben yn ganmoladwy, ac wedi cael ei ffurfio gyda golwg i fod o ryw wasanaeth, nid yn unig i ni ein hunain, ond i ereill hefyd. Wedi cael boddlonrwydd ar y pen hwn, ewch i weithio â'ch holl egni, gan amcanu rhagori yn eich swydd, neu eich galwad, pa mor uchel neu isel bynag y bo. Pob peth erioed a gyflawnwyd, ag oedd o werth i gyflawni, a gyflawnwyd gan ddynion fuont ddiwyd a difrifol yn eu gwaith. Ni waeth i bwy ganghen o ddiwydrwydd y trowch eich sylw, nad peth bynag ddywedo rhai i'r gwrthwyneb, gellwch weled fod lle i wneyd gwelliant yn y ganghen hono, er cymaint sydd wedi ei wneyd. Mae llawer yn rhagor i wneuthur ynddi nag a wnaed erioed eto. Ond dynion diymdrech, diog, nid ydynt yn credu hyn. Meddyliant fod pob peth sydd o werth i'w wneuthur wedi cael ei wneyd—dim gwelliant i fod yn un peth mwy. Ond nid dyma farn dynion synwyrol a diwyd; yn mlaen o hyd mae eu cyrchfa hwynt. Mae'r diog yn marw ac yn cael eu claddu, ac nid yw neb yn gweled eu heisieu; ond y mae'r diwyd, er wedi marw, eto yn fyw o hyd yn eu gwaith, ac mewn gwir ystyr yn meddiannu'r ddaear yn hir ar ol iddi orchuddio eu llwch. Eu cof-feini ydynt oddiamgylch i ni, uwch ein penau, a than ein traed. Yr ydym yn eu hanrhydeddu, a'u mawl sydd yn ngenau pawb a'u hadwaen. Peidied neb a bod yn segur. "Ewch i weithio," hen, ac ieuainc, a chanol oed, ac amcanwch yn wastad at ragoriaeth yn eich galwad, beth bynag a fyddo.—EWUH I WEITHIO.

Paid byth a dirmygu dyn am nad yw yn gwybod rhywbeth yr wyt ti yn ei wybod. Nid ydyw yn anmhosibl na all ef wybod mil o bethau yr wyt ti yn hollol anhysbys o honynt. Wrth ffurfio amcan gyfrif o'th gyfeillion, ceisia ddyfod allan o'th wahanfodaeth dy hun, i fwrw ymaith hunan, a mesur dynion wrth egwyddorion, ac nid wrth ragfarnau.

ESBONIAD AR RHUF. VIII. 19—23.

Mae yr adnodau uchod, rhaid cyfaddef, yn dywyll iawn i mi, a chredaf eu bod felly i bawb, oddieithr yn unig i'r darllenwyr hyny i'r rhai nid oes un adnod yn dywyll o Genesis hyd ddiwedd Dadguddiad. Ond pan yn cyfarfod ag anhawsdra yma a thraw wrth ddarllen yr Ysgrythyrau, dylid drachefn a thrachefn ei orchfygu, ac nid amyned heibio iddo a dywedyd fod Paul, neu ryw un arall, yn camsynied neu yn siarad dwli. Hawdd iawn yw gwneuthur cam âg ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau, a phob ysgrifenwr arall, wrth ddarllen eu cyfansoddiadau yn frysiog ac esgeulus. Mae llawer man tywyll, ar ol dyfalbarhad ac ystyriaeth ddyladwy, wedi dyfod yn oleu; llawer anhawsdra, a ymddangosai ar y cyntaf yn anorchfygadwy, wedi cael ei symud ffwrdd; a llawer *passage* a dybid ysgatfydd ei fod yn dysgu athrawiaeth gyfeiliornus, yn dysgu gwirionedd pur a phwysig. Llyfr yw'r Beibl sydd o werth i'w ddeall—Llyfr y llyfrau yw; ac nid oes neb wedi chwilio ei fwngloddiau heb gael ei dalu am ei waith mewn caffaeliad o drysor mawr ei werth. Nid wyf yn amheu nad oes ynddo rai pethau nas gellir eu deall a'u cysoni, er pob ymgais i wneuthur hyny, a byddai yn fwy o barch ac anrhydedd i'r Beibl i gyfaddef hyny ar unwaith. Ond wedi ei chwilio a'i chwalu yn y modd mwyaf didrugaredd gan feirniaid galluog a medrus, ychydig wedi'r cyfan yw yr ûs a'r mwnws a geir ynddo: y mae yn aur, arian, a meini gwerthfawr gan mwyaf o hono. Mae y mwyafrif o'r dynion goreu a dysgedicaf yn y byd yn ei uchel brisio a'i barchu; mae wedi nerthu a chysuro pererinion fyrdd ar eu taith trwy'r byd, a'u goleuo yn nglyn tywyll cysgod angeu. Awgryma rhai, mewn modd hytrach yn wawdlyd na pheidio, yn ol fy nheimlad i, fod Cristnogion, lawer o honynt, yn Feibl-addolwyr, neu yn gwneuthur eilun o hono. Nid wyf yn gallu credu fod neb yn euog o'r cyhuddiad hwn, ac yr wyf yn sicr nad oes neb wedi cyfaddef hyny. Perchir y Beibl yn fawr yn ddiamheu, ond nid gymaint ag y mae yn deilyngu. Ar y pen hwn, hyn yn unig a chwanegaf: Os myn dynion addoli rhyw lyfr, addolant yr Hen Feibl.

Mae esboniad Livermore a Belsham ar yr adnodau uchod wedi ymddangos, a bydded iddynt gael eu derbyn neu eu gwrthod yn ol eu pwysau yn nghlorian y darllenydd. Y mae y canlynol yn gynyg at esboniad arall, ac yn cael ei gyflwyno i sylw ac ystyriaeth darllenwyr yr Ymofynydd yn y modd mwyaf gostyngedig. Ni chwenych yr awdwr un derbyniad iddo, ond mor belled ag y byddo ei deilyngdod yn hawlio'r cyfryw; a bydded i'r darllenydd craffus a diduedd farnu pa un a berthyn iddo ai peidio.

Adnod 20.—"*Canys y creadur sydd wedi ei ddarostwng i oferedd; nid o'i fodd, eithr oblegid yr hwn a'i darostyngodd.*"—"Y creadur." Y cyfieithiad llythyrenol, mae'n wir, fyddai creadigaeth, ond y mae'r gwreiddiol yn cael ei gyfieithu mewn rhai manau yn y Testament Newydd yn greadur, lle na wnaethai creadigaeth y tro yn ogystal: "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr Efengyl i bob creadur." Marc xvi. 15. "Yr Efengyl yr hon a glywsoch, ac a bregethwyd yn mysg pob creadur a'r sydd dan y nef." Col. i. 23. Ni byddai creadigaeth yn welliant ar y cyfieithiad yn y dyfyniadau uchod; o leiaf, yr wyf fi yn methu deall hyny. Mae creadur yn gwneuthur synwyr da, ond

creadur neu greaduriaid rhesymol yn ddiau ddylid ddeall. Y mae Paul hefyd mewn amryw fanau yn son am "greadur newydd." "Gan hyny, od oes neb yn Nghrist Iesu, y mae efe yn greadur newydd." 2 Cor. v. 17. Wrth greadur newydd y mae'r Apostol yn golygu yma Gristion. Yn y *passage* dan sylw, ni ddywed Paul, mae yn wir, creadur newydd, ond creadur yn unig; er hyny, credwyf mae'r creadur newydd, neu'r Cristion, y mae yn feddwl. Fy rheswm dros gredu hyny yw fod yr Apostol yn yr adnod flaenaf o'r benod yn dywedyd "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu." Beth yn fwy naturiol na deall mae'r un person yw'r creadur yn yr adnod dan sylw a'r sawl y dywed yn yr adnodau o'r blaen, yn y rhif luosog, eu bod yn Nghrist Iesu, eu bod yn rhodio yn ol yr ysbryd, yn syniaw am bethau yr ysbryd yn yr ysbryd, fod Crist ynddynt, eu bod yn cael eu harwain gan ysbryd Duw, eu bod yn blant i Dduw, yn etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ! Wrth y creadur yr wyf, gan hyny, yn deall y creadur newydd, neu'r Cristion. Y rhif unigol yn cael ei arfer yn lle y rhif luosog—peth digon cyffredin yn epistolau Paul. "*Canys y creadur sydd wedi ei ddarostwng i oferedd.*" Yn mha ystyr y mae i ni ddeall fod y Cristionogion wedi cael eu darostwng i oferedd? Mae'r prif anhawsdra yn y man hwn. Yn yr adnodau 17 a 18, dywed Paul fod y Cristionogion yn cyd-ddyoddef â Christ, ac nad yw dyoddefiadau yr amser presenol hwn yn haeddu cael eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir. Yr oedd y Cristionogion yn gorfod dyoddef oherwydd eu proffes, yr oeddynt yn cael eu herlid a'u poeni gan awdurdodau eilunaddolgar, gan awdurdodau a wasanaethent ddelwau, neu "oferedd," fel y mae y prophwyd Ieremiah yn eu galw: "Oferedd ynt, a gwaith cyfeiliorni." x. 15. "A oes neb yn mhlith oferedd y cenedloedd a wna iddi wlawio?" xiv. 22. Y dyoddefiadau presenol y gorfodid canlynwyr yr Iesu i fyned danynt gan eu herlidwyr eilunaddolgar, gan weision "oferedd" yn Rhufain a manau ereill, a enwir gan yr Apostol yn adnod 35, sef gorthrymder, ing, ymlid, newyn, noethni, enbydrwydd, a chleddyf. Ni ddywed yr Apostol fod un cyssylltiad rhwng dyoddefiadau presenol y creadur a phechod Adda; ereill mewn amser diweddarach o lawer a ddygodd yr athrawiaeth gyfeiliornus hon i mewn i'r Eglwys Gristionogol, ac a feddyliasant fod iddi ryw ychydig gynhaliaeth yn yr adnod dan sylw. Mae yr athrawiaeth hon wedi byw yn hir, ond y mae ei hamser terfynedig yn nron dyfod oddiamgylch, a bydd farw o nychdod a henaint teg. Yr oedd gwraidd dyoddefiadau y Cristionogion, sef eu darostyngiad, yn mhell tu yma i ardd Eden, sef yn uhywyllwch a rhagfarn eu gwrthwynebwyr; a dywed yr Apostol, gan fod y Rhufeiniaid yn ymgrymu i eilunod neu "oferedd," ac yn erlid y Cristionogion am ddilyn yr Iesu ac addoli yr unig wir a'r bywiol Dduw, fod y Cristionogion wedi cael eu darostwng i oferedd—eu bod yn gorfod dyoddef beth bynag oedd "oferedd," eilunaddoliaeth, neu eilunaddolwyr, yn gweled yn briodol i'w darostwng iddo.

"Nid o'i fodd, eithr oblegid yr hwn a'i darostyngodd." Nid ewyllys y Cristionogion oedd dyoddef, nid oeddynt yn proffesu Crist er mwyn newyn, a noethni, a chleddyf; nid o'u bodd y gwynebent bob math o enbydrwydd, ond cael eu gorfodi i hyn yr oeddynt gan eu gwrthwynebwyr, gan eu gelynion, y rhai oedd yn eu darostwng. Carai y

Cristionogion yn ddiamheu gael heddwch a llonyddwch yn eu hymlyniad wrth eu hegwyddorion, ond yn hytrach na'u gwadu, gwell oedd ganddynt ddyoddef pob caledi, a dywedent, "Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist?" Ië, meddai'r Apostol "Y mae yn ddiogel na all nac angeu nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na meddiannau, na phethau presenol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd."

Adnod 21.—"*Dan obaith y rhyddheir y creadur yntau hefyd, o gaethiwed llygredigaeth, i ryddid gogoniant plant Duw.*" Yr oedd y Cristnogion yn eu darostyngiad yn dyoddef mewn gobaith,—mewn gobaith, er gwan o bosibl, am amser gwell iddynt yn y byd presenol, pryd na byddai proffes Gristnogol yn gwneuthur neb yn agored i erledigaeth a charchar; mewn gobaith cael eu rhyddhau o'r caethiwed llygredig yr oeddynt ynddo, fel Cristnogion, dan draed gelynion eilunaddolgar, a chael mwynhau rhyddid—y rhyddid gogoneddus o ba un yr oeddent fel plant Duw yn ystyried eu hunain yn deilwng o hono. Ac, os nad oedd amser gwell i wawrio ar Gristnogion yn y byd hwn, dyoddefent mewn gobaith cyflawn a sicr am ryddhad o'u caethiwed yn y byd tu draw i'r bedd. "Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yn Nghrist, truanaf o'r oll ddynion ydym ni." 1. Cor. xv. 19.

Adnod 22.—*Canys ni a wyddom fod pob creadur yn cyd-ocheneidio, ac yn cyd-ofidio hyd y pryd hwn.*" Nid yn unig Cristnogion Rhufain oeddent yn cael eu gorfodi i ddyoddef yn achos Crist; nid iddynt hwy yn unig yr oedd drysau y carchar yn agor; nid hwy yn unig a fygythid â min y cleddyf; ond dyna hefyd beth oedd tynged y Cristnogion yn gyffredinol. 'Roedd Paul yn ewyllysio calonogi Cristnogion Rhufain i ddal i fyny yn ngwyneb pob gorthrymder trwy ddwyn ar gof iddynt fod eu brodyr yn y ffydd ym mhob man yn cyd-ymdeimlo â hwynt; yn gymaint a'u bod yn cyd-ddyoddef, eu bod yn cyd-ocheneidio ac yn cyd-ofidio hyd y pryd hwnw.

Adnod 23.—*Ac nid yn unig y creadur, ond ninau hefyd y rhai sydd genym flaenffrwyth yr Ysbryd; yr ydym ninau ein hunain hefyd yn ocheneidio ynom ein hunain, gan ddysgwyl y mabwysiad, sef prynedigaeth ein corff.*" Nid yn unig y corff o Gristnogion yn gyffredinol oeddent yn cael eu gorthrymu a'u blino gan elynion yr Efengyl, oeddent yn darged saethau cynddaredd wrthbleidiol yr oes, ond yr oedd yr Apostolion hefyd yn yr un cyflwr, y rhai oeddent wedi derbyn blaenffrwyth yr Ysbryd, y rhai yr oedd Ysbryd y gwirionedd wedi goleuo eu meddyliau gyntaf, y rhai oeddent mewn ystyr wedi cael eu tra dyrchafu ar gyfrif eu swydd a'u doniau â phob goruchel freintiau fel cenhadon dros Grist, y rhai oeddent yn hen filwyr dan faner y groes. Gallesid ar ryw olwg ddysgwyl y buasai Duw yn cyfryngu i gadw a diogelu ei weision etholedig rhag pob perygl a sarhad, a'u harwain yn ei law mewn heddwch a thangnefedd i'r orphwysfa dawel yr ochr draw i'r byd a'r bedd. Ond nid oedd Duw yn gweled felly yn dda. Amgylchynid hwy, fel y Cristnogion yn gyffredinol, â pheryglon uwch rhifedi ac o bob math, fel yr ocheneidient yn llwythog, ac y dysgwylient ddydd eu gwaredigaeth. Yr oeddent yn awyddus i daflu eu baich i lawr; ac os mai ychydig oedd yr argoel am derfyn i'w dyoddefiadau yn y byd hwn, yr hyn yn ddiau a chwenychent yn fawr i gymeryd lle pe yn unol âg ewyllys

Duw, eto yr oedd eu ffydd yn gref y gwnae eu Tad nefol yn ei amser doeth a da ei hun, eu mabwysiadu yn blant anwylion iddo; y gwnae arwyddocau ei gymeradwyaeth o'u llafur a'u ffyddlondeb, eu gwaredu allan o bob caledi, eu prynu, eu rhyddhau oddiwrth eu holl ddyoddefiadau, a'u gosod mewn gogoniant tragwyddol.

Wele fi wedi cyflawni fy addewid, er gyda llawer o anmherffeithrwydd, trwy ysgrifenu y nodiadau uchod i'r YMOFYNYDD. Bydded rhwng y darllenydd â hwy. Yr wyf yn mhell o feddwl y perthyn iddynt unrhyw ragoroldeb neillduol, a'u bod yn benderfynol ar y pwnc. Y maent yn gynyg onest i egluro meddwl yr Apostol, ac yn ymddangos i mi yn fwy rhesymol na dim arall wyf wedi weled hyd yma. Yr wyf yn awr, Mr. Golygydd, yn cilio o'r maes hwn gyda'r dymuniad, os gwyr un o'ch gohebwyr am esboniad rhagorach nag un o'r tri sydd wedi ymddangos, y bydd iddo anrhegu darllenwyr yr YMOFYNYDD âg ef, a chaiff ddiolch gan lawer heblaw gan yr eiddoch yn barchus,

THOS. THOMAS.

AT BLANT YR YSGOL SABOTHOL.

WEL, blant, dyma'r YMOFYNYDD wedi dyfod i ymweled â chwi unwaith eto. Mae yn dda genych, yr ydym yn sier, weled ei wyneb hawddgar a siriol. Am gael gwybod y mae, yn ddiau, pa fodd yr ydych yn dyfod yn y blaen yma, a phwy rai o honoch chwi, yr ysgolheigion, ac o'r athrawon hefyd, sydd fwyaf cyson yn eich lle yr yr ysgol. Peth hyfryd yw gweled pawb yn dal at waith da, unwaith wedi cymeryd ato. Nid yw dynion anwadal ddim i ymddibynu arnynt. Byddwch yn wastad yn eich lle yn yr ysgol fel yn y cwrdd. Na adewch i ddim eich rhwystro fyned i'r naill na'r llall, ond afiechyd.

Rhydd bleser mawr hefyd i bawb o'ch cyfeillion eich gweled yn dyfod i'r ysgol â'ch dillad, a'ch dwylo, a'ch wynebau yn lan. Ni feia un dyn ystyriol arnoch os y bydd eich dillad yn llwm; ond os y byddant yn frwnt ac yn anghryno, eich bai chwi ydyw, neu efallai eich rhieni.

Deuwch i'r ysgol mewn amser hefyd, ac i'r cwrdd mewn amser. Chwi welsoch rai plant yn dyfod i'r ysgol yn ddiweddar, pan fyddo pawb ereill yn y *class* wedi gwneyd llawer o waith. Os yw'r ysgol yn dechreu am ddeg neu am dri, neu unrhyw amser arall, byddwch yno mor nesed a galloch at yr amser. Ewch i'r cwrdd hefyd mewn amser. Mae rhai dynion ch'i wyddoch, yn wastad yn ddiweddar, ac yn disturbo ereill, pan fyddo'r gweinidog efallai ar weddi. Peidiwch byth bod yn ddiweddar nac yn yr ysgol nac yn y cwrdd. Dewch mewn amser.

Ni a wyddom ei fod yn arfer gan rai plant i alw llysenwau ar eu gilydd, a chwerthin am ben rhyw un yn yr ysgol a ddygwyddo fod yn fwy llariaidd a llwfr nag ereill. Gobeithio ydym nad oes neb yn yr ysgol hyn yn euog o'r fath beth. Byddwch garedig i'ch gilydd, blant, ac os y dygwydd fod yn eich plith un mwy gwirion na'r lleill, yn lle chwerthin am ei ben, a gwneuthur "ploeyn naddu" o hono, cymerwch ei *bart*, ac os gwelwch rai yn cynyg ei flino, amddiffynwch ef.

Gwrandewch ar y stori a gaulyn. Stori ydyw am fachgen du. Un Mr. Southey sydd yn ei hadrodd. Negro oedd y bachgen wedi dyfod

gyda ei feistr i'r wlad hon o America. "Pan oeddwn yn fachgenyn," medd efe, "dygwyddodd fod yn y gymydogaeth fachgen du o'r enw Jim Dick. Un prydnawn pan oeddwn i a'm cymdeithion yn chwareu gyda'n gilydd, daeth Jim heibio. Gadawsom ein digrifwch yn y man i wneuthur *sport* o'r estron tylawd, a gwaeddi ar ei ol, "*negro*," "*blackamoor*," a phob enw dirmygedig allasem feddwl am dano. Ychydig o ddiwrnodau ar ol hyn cytunasom fyned i lyn yn y gymydogaeth i *slido*. Rhyw fodd neu gilydd, dygwyddodd i mi dori fy llyfnwadnau *(skates)*. Cofiais fod Jim yn byw yn y fan, a bod ganddo fe bâr. Aethym ato a gofynais a fyddai e cystal a rhoddi eu benthyg i mi." "Gwnaf, yn siwr," ebe Jim, "mae i chwi gyflawn roesaw iddynt." Pan aethym yn ol â hwy, yr oedd Jim yn y gegin yn darllen ei Feibl. Dywedais wrtho fy mod yn dychwelyd y llyfnwadnau, ac i fod genyf ddioleh iddo am eu benthyg. Wrth eu derbyn o'm llaw, edrychodd yn fy wyneb a dagrau yn ei lygaid, a dywedodd, "John, da ch'ithe, peidiwch ond hyny a galw, "negro" a "blackamoor," ar fy ol." Aeth geiriau Jim fel saeth trwy fy nghalon, ac wedi troi fy nghefn torais allan i lefain, a phenderfynais i beidio difenwi Jim na neb arall byth mwy."

Dywedwn ninau wrthych, blant, dichon mai y bachgenyn a chwerddir am ei ben, ac a ddifenwyr, yw y mwyaf caruaidd a goreu ei dymer o honoch oll. Pan y byddoch yn cael eich temtio i ddifenwi a gwneyd *sport* o neb, cofiwch ystori Southey am y bachgen du a'r llyfrwadnau. Yn awr at y gwersi, blant.

Chwiliwch allan yr holl fanau yn y pedair Efengyl lle mae son am y pethau canlynol. Ysgrifenwch hefyd y penodau a'r adnodau, fel o'r blaen, ac adroddwch, o leiaf y sylwedd, wrth eich hathrawon, a dangoswch iddynt eich papyr.

A oedd gan yr Iesu aneddle, neu unrhyw artref mwy neillduol na'u gilydd yn amser ei weinidogaeth? Pwy sylw wnaeth efe gyda golwg ar hyn?

A ddarfu i'r Iesu gymeryd at ryw ddull o fywoliaeth mwy neillduol na'r cyffredin, fel y gwnaeth Ioan Fedyddiwr? Pwy sylw wnaeth yr Iuddewon gyda golwg ar hyn?

A oedd yn arfer ganddo fyned i'r synagogau i addoli?

Beth ddywedodd gyda golwg ar dalu teyrnged? A oes genym hanes iddo fe ei hun dalu teyrnged?

A oedd efe yn cymeryd sylw neillduol o blant bach?

A ydych yn cofio'r ymddyddan fu rhyngddo unwaith â dyn ieuanc?

Beth oedd y sylw a wnaeth pan welodd weddw dlawd yn gwneuthur rhyw beth ag oedd yn dangos cydwybodolrwydd neillduol ynddi?

Adroddwch allan o lyfr yr ymddyddan fu rhyngddo a'r ddynes o Samaria?

Olrheiniwch ar y map ail daith yr Apostol i bregethu Crist?

Pa sawl gradd yn nes i'r de mae Ierusalem na Llundain, a faint o amser yn gynt mae'r haul yn codi yn Ierusalem na chyda ni yn Nghuerfyrddin? Os ydych wedi cael y map a elwir yr *Eastern Hemispheres*, gallwch ffeindio hyn allan yn rhwydd. Amgylchedd y ddaear yw 360 gradd, ac y mae'r haul yn symud 15 gradd bob awr o'r dwyrain i'r gorllewin. Edrychwch sawl gradd sydd o Ierusalem hyd y llinell a basia o begwn i begwn dros ben Caerfyrddin. Mae pymtheg gradd rhwng pob dwy o'r llinellau yna.

Un gair yn rhagor, blant, ac wele ni yn myned y tro hwn. Cofiwch mae'r ugain mlynedd cyntaf yw'r amser mwyaf pwysfawr yn eich bywyd. Yn ol fel yr heuwch yn y tymhor hwn o'ch bywyd, y cewch fedi mewn amser i ddyfod. Gwrandewch beth a ddywed cyfaill i'r YMOFYNYDD yn nghylch yr ugain mlynedd cyntaf o'ch bywyd. "Byddwch byw," medd efe, "cyhyd ag y byddo yn ddichonadwy; yr ugain mlynedd cyntaf sydd yn ffurfio y rhan fwyaf o'ch bywyd. Ymddangosant felly tra y maent yn myned heibio; y maent yn ymddangos fel wedi bod felly pan yr edrychom yn ol arnynt; a chymerant i fyny fwy o le yn ein cof na'r holl flynyddau a'u canlynant."

"Os felly y mae yn bod, mor bwysig ydyw iddynt gael eu treulio mewn planu egwyddorion da, meithrin chwaeth dda, ymnerthu mewn arferion da, a ffoi rhag yr holl bleserau hyny a fyddant yn storio chwerwder a thristwch ar gyfer amser i ddyfod! Cymerwch ofal da am ugain mlynedd cyntaf eich bywyd, a bydd genych le i obeithio y gwnaiff yr ugain mlynedd diweddaf gymeryd gofal da am danoch chwi."—C. M.

Yn awr, ffarwel i chwi, blant. Gobeithio y cawn gyfarfod eto cyn bo hir, a gweled eich bod yn gwneuthur cynydd yn yr ysgol yma. Ond beth am y scwar o'r naw rhifnod? Buom bron anghofio gofyn. Ni a gymerwn yn ganiatol eich bod wedi llwyddo i wneyd y peth, ac am hyny, gyda'ch cenad, ni a roddwn i chwi *bwsl* bach rhwydd arall. Tynwch bump a deugain o bump a deugain fel y byddo pump a deugain yn weddill. Ac yn awr dyma ni yn myned, o'r diwedd. Dydd da i chwi.

Atebion a Gofyniadau.

Dywed "X Y Z" wrth yr *Executors* am roddi mil o bunau i'r ferch, dwy fil i'r fam, a phedair mil i'r mab. Gwna y rhaniad hwn gyñawnder â'r tri yn ol yr ewyllys. Ymresyma "X Y Z" fel y canlyn, ac y mae yn iawn:—Mae'r fam i gael dau cymaint a'r ferch, a'r mab ddau cymaint a'r fam, hyny yw, am bob punt i'r ferch mae'r fam i gael dwy, ac am bob dwy i'r fam, mae'r mab i gael pedair. Felly y cyfartaledd yw, 1, 2, 4, yr hyn a wna saith rhan. O ganlyniad mae i'r ferch un rhan o saith o'r arian, i'r fam ddwy rhan o saith, ac i'r mab bedair rhan o saith.

Nid yw ateb D. Jones yn iawn, nac ychwaith ateb Gwilym Ddu. Gwelant nad oes dim sylltau i fod yn shar un o'r tri.

Mae "Mari, o'r Bryncoch," yn dywedyd wrthym i'w hewyrth adael iddi hi yn ei ewyllys ddau cant o bunau, ar y telerau nad ydynt i gael eu talu naw mlynedd a thri chwarter ar ol ei ddydd. Mae ei hewyrth wedi newydd farw. Yn awr, yn gymaint ag fod arni hi eisieu arian, mae cymydog iddi yn foddlon talu can punt am y dau cant. Deisyf mae hi gael gwybod, os y gwertha hi yr arian am gan punt, faint yn y cant o *interest* fyddai hi yn dalu? Mae hi yn foddlon talu pum punt yn y cant o *interest*, a dim yn ychwaneg. Pe derbyniai hi gynyg ei chymydog, meddwl y mae y byddai yn talu rhagor na phum punt. *Compound Interest*, wrth gwrs.

MYFYRIWR.—Da genym glywed fod yr hyn a sylwasom ar y gair *Elohim* yn rhoddi boddlonrwydd i chwi. Am yr adnod y cyfeiriwch ati yn Isaiah (ix. 6), ac y gofynwch ein meddwl am dani fel prawf o Dduwdod Crist, ein barn ni yw mai peth ffol yw dwyn yr adnod hon hefyd i brofi yr athrawiaeth, ac os oes genych, mewn gwirionedd, barch i'r athrawiaeth, ni wnewch byth o hyny mwy.

"Bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni," &c. Llawer gwaith, pan yn ieuanc, y clywsom y geiriau hyn yn cael eu hadrodd yn hwylus ac egniol, gyda thôn ac aceniaeth ag sydd yn eithaf adnabyddus i lawer. Mi debygem fod y dôn neillduol hono yn seinio yn ein clustiau yn awr pan yn ysgrifenu. Wedi adrodd yr adnod, mor nodedig oedd y boddlonrwydd a ymddangosai yn wynebau llawer o'r gwyddfodolion, fel nas gallem lai na meddwl, wrth edrych arnynt, eu bod yn barod i ddyweyd, "B'le mae'r Sosin yn awr?" Druan a'r hen fwbach a elwir "Sosin!" Cafodd lawer ergyd caled cyn hyn. Mae yn dda mai bwbach ydyw, ac mai er mwyn dangos deheurwydd i'w faeddu y gosodir ef i fyny yn darged.

Ond o brysur, i ba ddyben y gwnewch ddwyn yr adnod hon yn mlaen i brofi Duwdod Crist? Ganwyd y "Duw cadarn" a sonir am dano yn yr adnod hon. Bu yn "fachgen." Rhaid mai rhyw feddwl isel iawn sydd genych am Dduw, onide arswydech i honi fod yr Hollalluog wedi bod yn "fab," yn "fachgen," ac iddo gael ei eni. Y DUW MAWR sydd yn bresenol yn yr holl greadigaeth wedi bod yn "fachgen!" wedi cael ei eni! Pe byddai ein Harglwydd Bendigedig ar y ddaear yn awr, a ydych yn meddwl na cheryddai efe chwi yn llym am ddatgan y fath gabledd er mwyn ei ddyrchafu ef? Credwch ni, nid hyn yw y dyrchafiad mai Crist yn ymofyn oddiwrthym. Os ganwyd y Duwdod, mae yn rhaid fod amser pryd nad oedd y Duwdod, a bod ei fam yn hun nag ef! "Ond," meddech chwi, "fel yr oedd yn ddyn y bu yn fachgen, ac y ganwyd ef, ac nid fel yr oedd yn Dduw." "Fel yr oedd yn ddyn ac fel yr oedd yn Dduw!" B'le y dysgasoch y fath ymadrodd disynwyr a hyn? Os fel dyn yr oedd yn "fachgen," ac y ganwyd ef, paham y dyfynwch yr adnod i brofi ei Dduwdod, os nad ei Dduwdod yr ydych yn feddwl? Yr ydych yn dyweyd ac yn gwrth-ddyweyd.

Dywedais, os ganwyd y Duwdod, bu amser pryd nad oedd. Os yw'r adnod yn cyfeirio at Dduwdod Crist, yr un Duwdod feddylia â Duwdod y Tad, yn ol yr athrawiaeth. Yr ydych yn condemnio'r Atheist am ddal nad oes un Duw, a pheth eithaf ynfyd, yn ddiau, yw Atheistiaeth; ond yn gymaint a'ch bod chwi yn honi fod yr adnod hon yn profi Duwdod Crist, ofni wyf fod eich athrawiaeth chwithau, yn groes i'ch bwriad, yr wyf yn addef, yn eich arwain i'r un tir. Gochelwch, gan hyny, wthio'r adnod hon i brofi Duwdod Crist.

Hefyd, os yw y Duwdod wedi bod yn "fachgen," rhaid iddo fod unwaith yn meddwl fel bachgen. Y Duwdod yn meddwl fel bachgen! Pwy ryfedd fod dynion, fel Thomas Payne, ag nad oes ganddynt un meddwl cymhwysach am Gristionogaeth na'r hyn a ddysgasant yn eu mebyd, yn codi fyny i wadu ac i wawdio Efengyl Iesu Grist ein Harglwydd? Peidiwch rhoddi achos i ddynion i wawdio crefydd. Mae rhai dynion yn rhy barod i wneyd hyn eisoes.

Ymddengys i ni eich bod yn cael eich cario ymaith gan swn geiriau yn unig, heb ddim sylwedd. Dichon eich bod o'r farn fod y prophwyd yma yn meddwl Crist, oherwydd fod y "bachgen" yn cael ei alw yn "El-Gibbor," a gyfieithir *Duw Cadarn.* Os na wyddoch, dylech wybod, mai peth cyffredin yw y gair El yn yr Hen Destament mewn enwau priodol; er enghreifft, El-hanan, *y Duw trugarog;* Eli-ab, *Duw sydd Dad;* El-iahba, *Duw sydd amddiffynwr;* Eli-jah, *Duw sydd Arglwydd,* &c. Bu perchenogion yr enwau hyn yn fechgyn ryw bryd, a byddai yn sier genym ni gystal sail i honi fod eu henwau yn arwyddo Duwdod, ag sydd genych chwi i honi hyny am *El-gibbor,* yn Isaiah. Yna beth ddelai o'r adnod fel prawf o Dduwdod Crist! Byddai eich prawf yn ddirym, oherwydd ei fod yn profi gormod.

Chwi ddylech ystyried hefyd fod y gair *Duw* yn cael ei gyfiwyno, yn yr Ysgrythyrau, at ddynion heb un awgrymiad fod y cyfryw yn cynwys Duwdod. "Os y galwodd efe hwynt yn *Dduwiau,*" medd Crist, "at y rhai y daeth gair Duw," &c. Dynion duwiol oeddynt, yn ddiau, eto i'r natur ddynol y perthynent, ac nid i'r Duwdod. Oni wyddoch fod Moses yn Dduw, a barnwyr Israel yn Dduwiau?

Yn fyr, pwy bynag feddyliai y prophwyd wrth y "mab," y "bachgen," yr "El-gibbor," y "cynghorwr," &c., nis gallai fod yn cynwys y Duwdod, oblegid diwedda gan ddywedyd "Sêl Arglwydd y Lluoedd a wna hyn," hyny yw, a bera i'r peth gymeryd lle. Trwy ei allu ef y ganwyd y "Mab," trwy ei allu ef y rhoddwyd y "bachgen," trwy ei allu ef y byddai yn "gynghorwr, yn "El-gibbor," yn "Dad tragwyddoldeb," ac yn "Dywysog tangnefedd." Sêl Jehofah oedd yn gwneuthur hyn oll. Os dywedwch fod y person nodedig hwn, pwy bynag ydoedd, yn cynwys y Duwdod, ac yn gymaint, fel y dysga yr athrawiaeth, ag mai Duwdod y Tad, sef Arglwydd y Lluoedd, oedd Duwdod Crist, mae yn canlyn fod Jehofah yn addaw gwneuthur ei hun yn "fab," yn "fachgen," yn "Dduw cadarn," yn "Dad tragwyddoldeb," &c. Chwi welwch, gan hyny, i'r fath wrthuni a dyryswch mae eich esboniad o'r adnod yn eich arwain. Chwi addefwch, ni wn, fod y prophwyd yn ysgrifenu synwyr gan nad beth yw ei feddwl, a chan fod eich esboniad chwi yn hollol ddisynwyr, eich dyledswydd yw ymdrechu cael allan am bwy, mewn gwirionedd, mae'r prophwyd yn llefaru. Os y byddwch yn dewis, rhoddwn bob cyfarwyddyd ag a allwn, trwy'r Ymofynydd, i chwi wneyd hyny.

Cyfaill i'r Ymofynydd.—Nid y chwi yw'r unig un sydd wedi ceisio genym egluro iddynt beth yw Ffeniaeth. Mae llawer wedi cael ei ysgrifenu ar y pwnc hwn, ond nid ydym hyd yn hyn wedi canfod dim yn y papyrau newyddion ag sydd yn taflu goleu ar y peth.

Beth yw Ffeniaeth, a pheth mae'r Feniaid yn ymofyn, sydd ddau ofyniad a gynygwn ateb. Rhaid i ni fod yn fyr, ond gobeithiwn y bydd yr hyn a ganlyn roddi boddlonrwydd i chwi, ac ereill o gyfeillion yr Ymofynydd.

Mae'r Iwerddon wedi bod yn derfysglyd er ys oesoedd, yn wir, bron oddiar pan y mae dan lywodraeth Lloegr. Beth yw'r achos? Meddylia rhai mai prif achos gwrthryfeloedd yr Iwerddon yw anfoddlonrwydd y trigolion i Eglwys y Llywodraeth. Fel cenedl, Pabyddion yw'r Gwyddelod. Am hyny, nis gall lai na bod teimladau annymunol

yn cael eu cyffroi ynddynt wrth feddwl fod Eglwys yn cael ei chynnell arnynt yn yr hon nid ydynt yn credu, ac i fod meddiannau a ddylai fod yn eu mheddiant hwy, fel Pabyddion, yn cael eu rhoddi gan y Llywodraeth i gynal crefydd na fynont hwy ddim â hi. Ond ar y pen hwn nid oes gan y Gwyddelod fwy o achos i achwyn nag sydd genym ni yn Nghymru. Nid yr Eglwys Sefydledig, mewn gwirionedd, yw'r *prif* achos o derfysgoedd yr Iwerddon, nac ychwaith o Ffeniaeth. Y prif achos yw y drefn a ddygwyd i mewn i'r Iwerddon gan y Saeson o renti a dal tir.

Ychydig, efallai, sydd yn gwybod fod dull y Gwyddelod o ranu a dal tir yn hollol wahanol i'n dull ni yn y wlad hon. Cyn goresgyniad yr Iwerddon gan freninoedd Lloegr, yr oedd yr holl genedl Wyddelig yn cael ei gwneyd i fyny o dylwythau a elwid *Septau*. Ystyr y gair Sept yw *tylwyth*. Cynwysai pob Sept ugeinrau, efallai ganoedd, o deuluoedd. Yr oedd pob Sept yn bodoli ar ei phen ei hun. Nid oedd y Septau byth yn ymgymysgu. Yn mhob Sept yr oedd un a ystyrid fel tad. Efe oedd flaenor a barnwr y Sept. Efe yn unig a setlai yn y diwedd bob ymrafaelion ac achosion a berthynai i'r Sept. Ei air ef oedd gyfraith. Galwai y Sept ef *Kean Feni*, neu *Pen y Tylwyth*. Pan fyddai y Kean Feni farw, etholid un arall yn ei le, ac weithiau, os dygwyddai i ragor nag un i ymgeisio am yr anrhydedd, achosai marwolaeth y Kean Feni ymrysonau, ac nid yn anfynych dywalltiad gwaed.

Perthynai i bob Sept gyfran o'r wlad—mwy neu lai yn ol poblogrwydd a dylanwad y Sept. Yr un Sept oedd yn byw ar yr un gyfran o genedlaeth i genedlaeth. Edrychai arni fel ei heiddo hi yn unig, a gwae i'r neb gynygai ei hamddifadu o honi. Unai'r Septau i amddiffyn eu gilydd, os byddai achos, ac arweinid hwynt gan y blaenor cyffredin a elwid *brenin*, er fod pob Kean Feni yn anymddibynol arno. Am hyny nid oedd gan freninoedd yr Iwerddon nemawr o awdurdod ar eu deiliaid. Yr oedd i bob teulu yn y Sept shâr o'r tir, ond dim ond fel aelod o'r Sept. Nid oedd dim hawl gan neb yn bersonol yn y tir, ond cyhyd ag y byddai yn byw arno. Ni feddai hawl ar ei farwolaeth i'w adael i'w blant. Pan fyddai pen teulu farw, gwnëyd rhaniad newydd o dir yr holl Sept, a'r Kean Feni oedd i benderfynu shâr pob teulu. Y canlyniad oedd na wnai neb yn y Sept wrteithio mwy ar ei dyddyn na fyddai yn braidd ddigon i gynal ei deulu, ac nid adeiladai dŷ gwell na bwthyn mwd a gwiail, oblegid ansertenolrwydd ei feddiant o'r tyddyn.

Cymaint a hyn fyr yn nghylch arfer y Gwyddelod mewn perthynas i'r tir. Yn awr pan ddarostyngwyd yr Iwerddon gan freninoedd Lloegr, atafaelwyd *(confiscate)* tir llawer Sept o bryd i bryd am wrthryfela yn erbyn eu llywodraeth. Gwerthai y breninoedd yr atafaeliadau i'r neb a ddewisai eu prynu, a'r swmau a gaent yn y dull hwn o bryd i'w gilydd a gynwysent gyfran lled helaeth o'u cyllid. Benthycient arian weithau ar ei deiliaid gan addaw rhoddi tir yn yr Iwerddon iddynt yn eu lle, yr atafaeliad cyntaf a ddygwyddai. Dyma ddechreuad llawer o *states* yn yr Iwerddon.

Pwy bynag a brynai y tir, rhesymol yw meddwl, y gosodent ef allan am ardreth, neu *rent*, i ddeiliaid. Y canlyniad fyddai gwrthyfel y Sept a amddifadwyd o'r tir, oblegyd ystyrient mai eu heiddo hwynt mewn

gwirionedd ydoedd, ac mai lladron ac ysbeilwyr oedd y perchenogion newydd. Pwy bynag a astudia yn fanwl hanes yr Iwerddon, a addef mai y teimlad anesmwyth hwn yn y trigolion sydd wedi bod yn achos o'u holl wrthryfeloedd. Mae'r Septau yn cadw ar wahan o hyd, er fod llawer o honynt wedi colli eu tir, ac y mae'r meddwl o'r ysbeiliad yn peri iddynt ymgynddeiriogi yn eu calonau yn erbyn y *Saesnach*.

Yn awr, amcan broffesedig y blaenoriaid Ffeniaidd yw adferu yr hen drefn hon o ddal tir trwy ddymchwelyd llywodraeth Lloegr, a rhoddi yn ol i'r Septau eu tadogaeth dirol. Dyma paham y galwant eu hunain *Ffeniaid*, am mai eu dyben i'w ailsefydlu cyfundrefn y Kean *Feni*. Mai hyn mewn gwirionedd yw dirgel fwriad y blaenoriaid, sydd amheus genym; ond y mae yn ateb eu dyben i beri i'w cydwladwyr anwybodus i gredu hyn, oblegyd gwyddant fod heu drefn y Kean Feni yn anwyl iawn yn eu golwg.

Yn America y dechreuodd y cydfrad Ffeniaidd. Yr oedd cannoedd o Wyddelod yn y rhyfel diweddaf. Fel y gwyddoch, tuedd rhyfel yn wastad yw meithrin penrhyddid mewn dynion, ac arfer segurllyd. Anhawdd yw i ddynion sydd wedi cael blas ar ysbeilio, ac ar ddamweiniau rhyfel, ddychwelyd at waith a dyledswyddau gonest bywyd. Felly, y Gwyddelod a fuont yn rhyfel America. Pan oedd y rhyfel hwnw drosodd, er mwyn cael ychwaneg o'r bywyd cyffrous ag oeddynt wedi cael blas arno, daeth i'w penau y meddylddrych o waredu yr Iwerddon o dan lywodraeth Lloegr. Ffurfiasant gydfrad yn America yn erbyn ein llywodraeth, a galwasant eu cymdeithas yn Ffeniaeth.

Yn awr yr ydych yn deall ystyr, dechreuad, a dyben Ffeniaeth. Pa un a lwydda'r Ffeniaid yn eu hamcan, sydd bwnc arall; a pha un a fyddai yn fwy manteisiol i'r Iwerddon yn y diwedd gael hen gyfundrefn dirol y Kean Feni yn ol, na bod dan gyfundrefn Lloegr, nid yw yn perthyn i ni yn bresenol i benderfynu. Oddiwrth yr eglurhâd a roddasom, gallwch yn awr, i raddau, farnu drostoch eich hun pa un o'r ddwy gyfundrefn sydd oreu?

Ifan ab Gwilym.—Yr ydych yn gofyn a oedd enwogion yr Hen Destament a'r Newydd yn credu yn modoliaeth personol Satan, neu y Diafol. Yr ydym o'r farn eu bod yn credu yn ei fodoliaeth, a hyny mor gadarn ac y credweh chwi a ninau yn modoliaeth Duw. Credent hefyd mai y Diafol oedd yr achos o bob drwg yn y byd, fel y credent mai Duw yw yr achos o bob daioni. Ymddengys i ni fod y grediniaeth yn anffaeledigrwydd yr enwogion sanctaidd gyda golwg ar bob math o wybodaethau wedi bod yn rhwystr mawr i lawer i dderbyn y grefydd Gristionogol, ac wedi achosi rhai i'w gwawdio. Llawer o bledio ac ysgrifenu sydd wedi bod gan ddynion, yn ddiau o fwriad da, i brofi nad yw y gwersi a ddysga daeareg yn iawn, am eu bod yn groes i'r benod gyntaf o Genesis. Ereill ydynt wedi ysgrifenu yn helaeth i'w cysoni â'u gilydd, fel pe buasai yn un o ddybenion yr Ysgrifenwyr Sanctaidd i ddysgu i ddynion athroniaeth. Mae hyn wedi achosi, o bryd i bryd, nid ychydig o ddirmygwenau a gwawd. Onid gwell fyddai addef ar unwaith y gwir na beichio y Datguddiad Dwyfol a phethau na sydd yn perthyn iddo? Pwy bynag a feddylia fod Crist, Paul, Pedr, Iago, Ioan, ac ysgrifenwyr yr Hen Destament, yn awdurdodau mewn athroniaeth, ydynt yn sicr yn camsynied ddybeu

Datguddiad. Onid yw awdwr llyfr Genesis yn dyweyd fod y gwlaw yn disgyn o'r ffurfafen? Er hyny, nid oes neb yn awr yn credu mai oddiyno y mae yn dyfod. Gwyddom mai esgyn mae'r cymylau yn darth o foroedd, llynoedd, afonydd, a lleithder y ddaear. Ond ni chanlyn oddiwrth hyn fod pob peth arall yn Genesis o ddim awdurdod. Os oes rhai camsyniadau yn y Pentateuch, a ddylai hyny wanhau ein cred yn nghenadwri Moses, neu beri i ni gredu nad oedd neillduaeth y genedl Hebreaidd o Ddwyfol ordinhâd? Credai enwogion yr Ysgrythyrau yr achosid dydd a nos gan yr haul yn teithio yn y ffurfafen, ond gwyddom yn awr nad yw hyny yn ffaith, ac mai troad y ddaear ar ei phegynau yw'r achos. Credai ein Harglwydd Iesu Grist, a'r apostolion, mai cythreuliaid oeddynt yn achosi rhai clefydau ag y mae y cyfansoddiad dynol yn agored iddynt, ond profa helaethach gwybodaeth feddygol nad oes gan gythreuliaid ddim i wneyd â'r clefydau. Eto i gyd, er eu bod yn anwybodus o natur clefydau, onid byrbwylldra o'r mwyaf fyddai neidio i'r penderfyniad nad oedd Crist dan Ddwyfol Ysbrydoliaeth yn y pethau a berthynent i Deyrnas Nefoedd? Mae yn ymddangos gan hyny i ni mai peth ffol yw yn y rhai ni chredant yn mhersoniaeth y Diafol, i geisio naddu a scwaro y manau hyny yn yr Ysgrythyrau lle y sonir am dano, i'r dyben iddynt gydweddu â'u syniadau hwynt ar y pwnc. Saif gwiredd neu anwiredd yr athrawiaeth o Ddiafol fel bod, yn hollol annibynol ar yr Ysgrythyrau. Gwell o lawer fyddai i chwi addef ar unwaith y ffaith fod enwogion yr Ysgrythyrau yn credu yn y bod o Ddiafol, ond nad ydych chwi yn eu hystyried yn awdurdod, ond yn unig mewn pethau a berthyn i'w cenadwri, fel gweision Duw.

Ysgrifena "Anwybodus" atom fel y canlyn:—"Y mae yr adnod a ganlyn," sef, 'Canys er mwyn hyny yr efengylwyd i'r meirw, fel y bernid hwy yn ol dynion yn y cnawd, ac y byddent fyw yn ol Duw yn yr Ysbryd,' 1 Pedr iv. 6, wedi bod dan sylw yn ddiweddar mewn cyfarfod wythnosol yn ——, a chan na chafodd y gwyddfodolion foddlonrwydd ar yr esboniadau a roddwyd arni, a chan fod yr esbonwyr eu hunain ddim yn gweled eu ffordd yn glir, dymunaf yn ostyngedig a difrifol arnoch chwi, neu ryw un o'ch aml ohebwyr, i roddi esboniad goleu arni. Wrth osod y cais uchod yn yr YMOFYNYDD, dymunwn eich hysbysu nad wyf yn gofyn er mwyn gofyn, ond oblegid awydd am oleuni." A fydd rhyw ohebwr cystal a chymeryd trueni arno yn ei anwybodaeth?

YR IAWN.

"A phaham nad ydych, ie, o honoch eich hunain, yn barnu yr hyn sydd gyfiawn."—Luc xii. 57.

Y MAE gwahanol enwau ar yr athrawiaeth am yr Iawn, megys Cosp Ddirprwyol, Arall-osodiad, Dyoddefaint Haeddianol, Athrawiaeth y Cymmod, a Meichniaeth. Y gair meichniaeth yw'r un mwyaf deallgadwy ac arferedig yn mhlith y Cymry uniaith. Yr ystyr a roddant iddo ydyw—arall-osodiad llythyrenol. Y mae'r golygiad hwn ar yr Iawn yn erbyn rheswm a chydwybod.

1. Yn y byd hwn fe gyfarfyddai cospedigaeth y diniwed yn lle'r euog â dirmyg yn mhob cymdeithas oleuedig. Nid allai yr un senedd allan o China ordeinio deddf o'r fath. Ni ellid cael barnwyr i'w gweinyddu. Yr un yw gwirionedd yn mhob byd.

2. Ni ddarfu un tad erioed, ac nis gallai, fabwysiadu y fath drefn, neu yn hytrach annhrefn, yn llywodraethiad ei deulu.

3. Ni oddefai y rhai hyny a broffesant grediniaeth yn yr egwyddor feichniol mewn cref̈ydd, yr arferiad o arall-osodiad yn ymddygiad gwladweiniaid Lloegr.

4. Dywedwn fod gan dad lawer o blant anufudd; y mae hefyd ganddo fab na throseddodd un amser ewyllys ei dad. Y mae'r tad yn nacau derbyn yr anufuddion yn ol i'w ffafr onis cydsynia yr un ufudd i ddwyn y gosp sydd ddyledus i bob un o'r gwrthryfelwyr. Y mae y digofaint a'r ing i'w dyoddef gan y plentyn gostyngedig hwn: rhaid talu'r hatling eithaf. Pa beth a ddywedem am y fath dad! Onid ei fod yn annhosturiol, anghyfiawn, anghenfilaidd? Ac eto yn y fath wedd y mae athrawiaeth arall-osodiad moesol yn gorfodi y neb a'i derbyniont i ystyried y Tad Nefol, anfeidrol rasiawn. Y mae priodoli y fath beth i dad dwyfol neu ddynol yn erbyn cydwybod pawb. "O, nis gall," dadleua un, "o anghenreidrwydd ei natur, faddeu heb gospi yn anfeidrol y troseddwr neu ei ddirprwy." Ond y mae'r dadleuwr hwn yn anghofio fod y neb a droseddo yn cael ei gospi wrth bechu. Mae'n anghofio hefyd nas gall cosp fod yn dragwyddol oblegid cu natur yn golygu adferiad y troseddwr. Anghofia hefyd fod yn anmhosibl trosglwyddo cuogrwydd, a chan hyny yn anghyfiawn i geisio trosglwyddo cosp.

Caniata pawb y gall un ddyoddef yn lle arall, er mwyn arall, dros arall; ond nid am bechod arall ddwyn cosp arall; hyny yw, nas gellir cospi un yn lle y llall yn gyfiawn. Dyoddefodd ein hanwyl Arglwydd Iesu Grist drosom, erddom, ond nid oedd yn bosibl iddo gael ei gospi yn gyfiawn ac yn llythyrenol yn ein lle. Gellir dyweyd yn ffugyrol, ond ffugyrol fyddai hyny, ddarfod ei gosbi yn ein lle, drwy ein gwaredu rhag pechod, ac felly rhag cosp pechod ag sydd o anghenreidrwydd natur yn disgyn yn anocheladwy ar y troseddwr wrth bechu; ond nis gellir dyweyd yn briodol, yn llythyrenol, ei gospi am ein pechodau gorphenol.

5. Y mae'r egwyddor adferol o gosp yn cynwys pob canlyniad arall sydd yn deilliaw o gosp. Meddylied y darllenydd am hyn, ac fe wel y gyfraith yn cael cu mawrhau a'i anrhydeddu yn ganlynol i'r egwyddor; digonedd o ddychryn ger bron creaduriaid cyfrifol; a chymeriad moesol pen pob deddf yn dysgleirio, ac yn cael ei gyfiawnhau.

6. Peth hawdd, ond diles yw dyweyd fod cyfiawnder yn anhyflyg, a bod yn rhaid anrhydeddu'r ddeddf, ac arfer ymadroddion creill, ac yn yr un anadl ddyweyd fod yn gyson â chyfiawnder i gospi un na haeddodd gosb.

7. Pa fodd y mae uniondeb y ddeddf yn cael ei ddangos trwy gam a gondemnia pob deddf gyfiawn yn mhob byd. Cospi un a droseddodd yn weithredol sydd anghyfiawnder a gondemnia pawb yn mhob cyflwr a lle.

8. Cyflawnu trosedd, yr hyn a anghymeradwya'r gyfraith, er mwyn cyflawnu'r gyfraith, fyddai cospi'r diniwed. Gweithredu anghyfiawnder er mwyn boddloni cyfiawnder. Duw yn gweithredu yn anhebyg i Dduw, fel y gallai ymddwyn megys Duw! Y mae'r syniad yn gwrthddyweyd ei hun.

Liverpool, Chwefror, 1868. GWIRIONEDD.

DAEARYDDIAETH PALESTINA.

SYR,—Tybiais mai nid anfuddiol i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, yn enwedig y darllenwyr ieuainc, fyddai ychydig benodau ar y testyn uchod. Os ydych chwi, syr, yn gweled hyny yn gymhwys, welo y benod gyntaf at eich gwasanaeth.

Ydwyf, &c.,

Gellionen. J. EVANS.

PENOD I.

Mae Palestina, neu Wlad Canaan, yn gorwedd i'r de-ddwyrain oddiwrthym ni yn Nghymru. Rhan o orllewinbarth Asia ydyw, ac yn gorwedd ar lan Mor y Canoldir, rhwng 30gr. 40m. a 33gr. 36m. lledred gogleddol, a 33gr. 45m. a 36gr. 20m. hydred dwyreiniol. Gwlad fechan ydyw hi. Ei hyd o'r de i'r gogledd ydyw oddeutu 190 o filldiroedd, a chyfartaledd ei lled oddeutu 70. Cyfrifir ei gwynebfesur oddeutu 11,000 o filldiroedd sgwar. Ei therfynau yn ogleddol ydynt Syria; gorllewinol, Mor y Canoldir, a elwir yn y Bibl y Mor Mawr; deheuol, Arabia; a dwyreiniol, Arabia a Syria.

Mae y wlad hon yn myned o dan wahanol enwau yn yr Ysgrythyrau. Gelwir hi *Palestina*, oddiwrth y Philistiaid y rhai oeddent yn meddianu darn helaeth o dir, yn y de-orllewin, ar lan y Mor Mawr. *Canaan*, oddiwrth fab ieuengaf Ham. *Tir yr Hebreaid*, fel meddiant disgynyddion Abraham. *Tir Israel*, oddiwrth hiliogaeth Jacob, a elwir hefyd Israel. *Tir Juda*, oddiwrth Judah, un o'r deuddeg patriarch. Ni pherthynai'r enw hwn ar y cyntaf, ond i'r rhan hono o'r wlad ag oedd yn perthyn i lwyth Judah; daeth gwedi hyny i arwyddo'r deyrnas a ffurfiwyd gan lwythau Benjamin a Judah. Pan ddychwelodd gweddill y ddau lwyth yn ol o'r gaethglud, yr oedd Judah mor enwog, nes aeth yr holl wlad dan yr enw Juda neu Judea. *Tir Sanctaidd.* Nid yw'r enw hwn yn ymddangos ei fod wedi cael ei arfer cyn dychweliad yr Iuddewon o gaethglud Babylon. Gelwir hi wrth yr enw hwn, am mai hi oedd y wlad ddewisedig gan Dduw i'w bobl ddewisedig, a'r lle yr ydoedd Ef i'w gael ei addoli. Mae'r enw hwn yn cael ei arfer mewn ystyr uwch gan y Cristnogion, gan mae yn y wlad hon yr ymddangosodd yr Iachawdwr, yma y cyflawnodd weithredoedd nerthol, ac yma y ddioddefodd farwolaeth y Groes er lles dynolryw. *Gwlad yr Addewid*; am ei bod mewn modd arbenig wedi ei haddaw yn etifeddiaeth dragwyddol i hiliogaeth y patriarchiaid. *Tir yr Arglwydd*; am ei bod mewn modd neillduol yn perthyn i Jehova. Dywedir fod ei phoblogaeth yn amser Brenhin Dafydd yn cyrhaedd

5,000,000, yr hyn nid yw yn ormodol i ni feddwl, pan y gwnawn ei chydnaru â gwledydd yn Ewrop, tebyg i'r un faintioli; megis Belgium, Holland, a Switzerland.

CRIST NID DUW.

Syr,—Llawenychais yn ddirfawr pan y clywais son fod yr Ymofynydd i ddyfod allan eto y drydedd waith yn mhlith Undodiaid Cymru; ond y mae fy llawenydd yn fwy wedi i mi weled ei wyneb siriol, prydferth, ac ymofyngar, am Ionawr a Chwefror, 1868. Diau fod llawer yn hyderu am ei weled er mwyn pleser ac adeiladaeth, ac ni chaiff neb ei siomi, os parha yn y blaen yn y dyfodol, fel y mae wedi ymddangos eisioes, ac y mae yn addef bod felly ond cael ychydig help a chynorthwy oddiwrth ohebwyr medrus, a phrofiadol, ac ewyllyswyr da ereill, er hyrwyddo yr amcan daionus sydd ganddo mewn golwg, sef goleuo yr anwybodus, anog dynion yn y blaen i farnu drostynt eu hunain yn nghylch y pethau a berthynant i'w dedwyddwch amserol a thragwyddol, trwy ymchwilio i mewn i'r Ysgrythyrau Sanctaidd, "a yw y pethau hyn felly," trwy gael iawn olwg ar egwyddorion Efengyl Tangnefedd Iesu Grist, yr hon sydd yn abl i wneuthur dyn yn ddedwydd yn y byd hwn, ac i'w barotoi i feddiannu gwynfyd mewn byd gwell tu draw i'r bedd. Diamheu fod llwyr o eisieu cyhoeddiad o'r fath yn mhlith Undodiaid Cymru y dyddiau presenol, er mwyn cyfrwng gwybodaeth rhyngddynt a'u gilydd, ac â'r cyhoedd; a phan ystyrir y fath gulni crefyddol, y fath ragfarn ddall-bleidiol, sydd yn cael ei ddangos tuag atynt, a hyny heb wybod y peth nesaf i ddim am y syniadau a goleddant, ond eu bod yn cael eu galw yn ddiystyrllyd ar yr enw bwganllyd hwnw y "Sosiniaid," &c. Dyna beth yw ffrwyth rhagfarn ac anwybodaeth yn mhob oes o'r byd. Er cymaint yr ymffrostir yn yr oes oleu hon (diamheuol ei bod ar lawer o ystyriaethau), mae yn wirionedd anwadadwy, fod dynion mewn llawer cilfach mor dywyll ac anwybodus yn yr oes bresenol, ag un oes sydd wedi myned heibio; ond y mae lle i gredu fod rhagfarn yn colli tir yn mhlith crefyddwyr o bob enwad, a dynion yn dyfod i farnu mwy drostynt eu hunain, os gellir casglu oddiwrth "arwyddion yr amserau," a'r twrw mawr sydd yn y byd crefyddol, rhwng pob gradd a dosbarth y dyddiau presenol. Prysured yr amser gwynfydedig oddiamgylch, i bawb dynion gydnabod eu hawliau y naill tuag at y llall, ac i garu eu gilydd fel y gweddai i blant yr "Un Duw a Thad oll."

Hyn am cyffrodd inau i wneuthur a allwyf i fwrw fy "hatling i'r drysorfa, er eiddiled wyf, gan obeithio y bydd yn foddion i gyffroi rhywun mwy galluog i'r gorchwyl o anfon gohebiaethau adeiladol, yn awr ac eilwaith, i'r Ymofynydd er dyddordeb i'w ddarllenwyr lluosog. Wele i chwi ychydig a ganlyn at eich gwasanaeth:—

Ysgrifenydd yn y *Leader* a esyd y testyn allan, fod Iesu Grist yn Dduw ac yn ddyn, er mwyn dangos ei afresymoldeb.

1. Iesu Grist fel Duw oedd, pan grewyd y byd hwn; Iesu Grist fel dyn, nid oedd pan grewyd y byd yma. Ond Iesu Grist fel Duw, a Iesu

Grist fel dyn oeddynt un person; felly yr un person oedd, pan nad ydoedd.

2. Iesu Grist fel Duw, ni allai ddyoddef; Iesu Grist fel dyn a ddyoddefodd; eto, Iesu Grist fel Duw, a Iesu Grist fel dyn, oeddynt yr un person; felly yr un person ni allai ddyoddef yr hyn a ddyoddefodd.

3. Iesu Grist fel Duw, ni allai fod yn newynog; Iesu Grist fel dyn, oedd yn newynog iawn, ar ol ei ddeugain niwrnod o ympryd. Eto, Iesu Grist fel Duw, a Iesu Grist fel dyn oeddynt yr un person; gan hyny, yr un person ni allai fod yn newynog, pan oedd yn goddef newyn.

4. Iesu Grist fel Duw, o dragwyddoldeb wyddai pob peth; Iesu Grist fel baban ni wyddai bob peth; ond efe a "gynyddodd mewn doethineb a chorffolaeth." Eto, Iesu Grist fel Duw, a Iesu Grist fel baban, oedd yr un person, am hyny, yr un person a wybu yr hyn ni wyddai.

5. Iesu Grist fel Duw, nid oedd mam ganddo; Iesu Grist fel dyn, oedd yn berchen mam. Eto, Iesu Grist fel Duw, a Iesu Grist fel dyn, oeddynt un person; gan hyny yr un person oedd heb un fam pan oedd mam ganddo.

6. Iesu Grist fel Duw oedd lawer henach na'i fam; Iesu Grist fel dyn oedd ychydig ieuengach na'i fam. Eto, Iesu Grist fel Duw, a Iesu Grist fel dyn oeddynt un person; gan hyny yr un person, er yn lawer henach na'i fam, oedd ddifam, ar yr un pryd ychydig yn ieuangach na'i fam.

7. Iesu Grist fel Duw ni allai farw; Iesu Grist fel dyn a fu farw. Ond Iesu Grist fel Duw, a Iesu Grist fel dyn, oeddynt un person; gan hyny yr un person ni allai farw pan fu farw."

O! y fath gruglwyth o eiriau disynwyr ac afresymol am gymeriad y Bod Mawr, a'i anfonedig Fab Ef, Iesu Grist, yr hwn a ddywed, "A hyn yw y bywyd tragwyddol, iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist di Iesu Grist." Gresyn meddwl bod dynion mor ddall yn rhoi eu hunain i gredu pethau mor wrthun, ac mor groes i reswm a dadguddiad dwyfol. Caf yn y dyfodol, os byw ac iach a fyddaf, wneuthur rai sylwadau ar yr anghysonderau a'r afresymoldeb a welir yn rhai o'r penau uchod.

EIDDIL CYNON.

YSGRIF DRETHEGLWYSOL MR. GLADSTONE.—Mae yr ysgrif hon yn awr o flaen Tŷ y Cyffredin, ac wedi myned trwy yr ail-ddarlleniad. Prif ddyben yr ysgrif yw amddifadu Eglwys y Llywodraeth o'r gallu a fedd ei gwarcheidwaid i orfodi y sawl nid ydynt yn ewyllysio, i dalu treth Eglwys. Yn ol yr ysgrif, ymrwyma y cyfryw a'i pleidleisiant, neu a'i gwrthwynebant, i'w thalu; ac yn gymaint a bydd yn rhaid iddynt ysgrifenu eu henwau ar lyfr, byddir yn gwybod pwy ydynt. Os pasia yr ysgrif hon yn ei dull cyntefig, y canlyniad fydd na chynygir treth ond yn y plwyfi hyny yn unig lle y teimla yr Esgobwyr yn dra sicr y gorfoda meistri tir eu deiliaid i beidio gwrthwynebu cynygiad treth yn y festri, ac wedi ei gwneyd, i'w thalu. Y mae llawer o blwyfi yn Nghymru a Lloegr dan ddylanwad meistri o'r fath. Am hyny yr ydym yn sicr na rydd ysgrif Mr. Gladstone foddlonrwydd i'r

wlad yn gyffredin. Dim llai a wna hyn na diddymiad y dreth. Gobeithio y mae llawer, pan ddel yr ysgrif o flaen Pwyllgor y Tŷ, y gosodir ynddi adran i'r dyben i rwystro y trawsarglwyddiaeth hyn; ond meddwl ydym mai yn ofer y gobeithiant, am y bydd dylanwad tirfeddianwyr yn rhy gryf yn y Tŷ i allu cario unrhyw adran o'r fath. Nid yw ein seneddwyr ddim mor ffol a rhoddi bastwn yn llaw y wlad i guro eu cefnau eu hunain, oni fydd gorfod iddynt. Nid ydym yn credu fod dymuniad gan yr Ymneillduwyr mwyaf trwyadl i weled hen eglwysi ein gwlad yn fagwyrydd, gan nad mor groes bynag y maent i egwyddorion Eglwys Llywodraeth. Henaint yr adeiladau hyn, a'r ystyriaeth fod llwch y plwyfolion am oesoedd lawer yn eu mynwentydd, a dueddant i enyn tuag atynt deimladau parchus yn mynwes pob dyn ag sydd wedi meddwl dim. O leiaf, mae y teimlad parchus hwn yn gryf ynom ni. Ond gan nad beth am hyn, ymddengys nad oes gan Esgobwyr nemawr o hono, onide y peth lleiaf allent wneyd, fyddai myned i'r draul i'w hadgyweirio pan fyddo eisieu. Trwy ganiatâd y llywodraeth, derbynia eu hoffeiriaid filiwnau ar filiwnau o bunau yn y flwyddyn oddiwrth yr eglwysi. Arian y wlad ydynt mewn gwirionedd, ac nid oes gan yr Esgobwyr ddim mwy o hawl iddynt na rhyw enwad arall. Mae'r wlad wedi *dyoddef* hyd yma i offeiriaid yr Esgobwyr i berchenogi'r meddianau hyn. Yn wir, ni fyddai yn nemawr o beth iddynt ofalu am yr adeiladau, am yr holl arian y maent yn dderbyn trwyddynt. Nid pell o'r lle yr oeddym yn byw yn Lloegr yr oedd un farmer Hodge. Yr oedd farmer Hodge wedi bod mor ffodus a chwrdd â *landlord* tra charedig—mwy felly na *landlords* yn gyffredin. Mor garedig a diariangar oedd meistr farmer Hodge, fel y gadawodd iddo fyw flynyddau lawer yn un o'i ffermydd bron yn hollol ddirent. Gwyddai nad oedd o un dyben iddo ofyn i Hodge am y rhent; er hyny ni roddai *notice* iddo ymadael â'r fferm. O'r diwedd, mae yn debyg i ben, naill ai'r ysgubor, neu'r beudy, neu ryw adeiliad o'r fath ag sydd yn perthyn i fferm, gwympo. Rhesymol meddwl y gwnelai Hodge, ag oedd yn derbyn cymaint o garedigrwydd ar law ei feistr, adgyweirio'r adeiliad o leiaf, ar ei draul ei hun. Ond ni wnai hyd y nod hyn, eithr aeth at ei feistr, a dywedodd wrtho fod yn rhaid cael pen ar yr ysgubor. Er mai dyn araf a llariaidd oedd ei feistr, perodd ymddygiad eofn a digywilydd Hodge beth syndod iddo. "Wel," ebe ei feistr wrtho, "mawr yw eich *impudence* chwi, Hodge, yn ceisio genyf i adgyweirio yr adeiliad, a chwithau yn gwybod eich bod wedi cael byw ar fy fferm flynyddau llawer yn ddirent. Yn wir, ni fyddai fawr o beth i chwi gadw'r tai ar eu traed ar eich traul eich hun. Ewch o'm golwg." Felly yr offeiriaid Esgobol. Er eu bod yn cael byw yn ddirent yn ffermydd brasaf *John Bull*, ac yn cael ganddo eu cynnyrch, a'r cyfan, am ddim, eto mor anniolchgar ydynt i'r hen wr tew am ei garedigrwydd fel na wnant gymaint a chadw ei dai yn repâr; ond *gorchymynant* iddo osod ei law yn ei boced i dalu am ei hadgyweirio. Nid oedd ymddygiad farmer Hodge ddim yn fwy anniolchgar na hyn. Am fod yn rhaid cadw yr hen adeiladau parchus, o leiaf tan dô, oblegid byddai yn waradwydd i'n gwlad eu gadael i dwmblo i'r llawr, meddwl ydym, o ddifrif, y byddai casgliadau gwirfoddol yn ddigon i'r perwyl. Ond a chaniatai na fyddent, yr ydym o'r farn na fyddai gwrthwynebiad gan yr Ymneillduwyr yn gyffredin i dreth orfodol er mwyn

yn unig cadw yr hen eglwysi ar eu traed. Y peth a wna dreth eglwys yn ffiaidd yn eu golwg yw y ffaith fod cyfran fawr o honi yn myned i gynal gwasanaeth yr Esgobwyr. Mewn llawer lle mae'r Esgobwyr mor ddigywilydd a gwneyd i'r plwyfolion o bob enwad i dalu am fara a gwin eu cymun, golchi gwisg wen eu hoffeiriaid, canu'r clychau, a'r cyffelyb! I hyn mae'r Ymneillduwyr yn anfoddlon. Edrychant arno fel peth anghyfiawn a gorthrymus. Y maent hwy yn adeiladu eu tai cyrddau, yn cynal eu gweinidogion, ac yn talu pob traul arall, heb bwyso ar neb na fyddo yn dewis cyfranu. Ymddengys yn eu hymddygiad fod ganddynt barch i grefydd—fod eu syniadau yn anwyl yn eu golwg. O'r tu arall, yn llawer man, nid oes dim dimau yn myned o bocedi yr Esgobwyr i gynal eu crefydd—y llywodraeth a ddarpara y cyfan iddynt. Lles, a lles mawr i ddynion yw cyfranu o'u heiddo i gynal eu crefydd. Crea ynddynt serch at eu hegwyddorion crefyddol, a math o rym moesol a haelgarwch ag sydd yn cael effaith ddaionus ar eu holl ymddygiad. Tuedd Eglwys Llywodraeth yn mhob man yw mogi pob cynneddf o'r fath yn nghalonau dynion, yn lle eu mheithrin a'u dwyn i aeddfedrwydd. Dyma rai o'r niweidiau mawr i eneidiau dynion a achosir gan Eglwys Sefydledig. Mae sefydliadau o'r fath hefyd yn tynu gwaradwydd ar grefydd. Beth all fod yn fwy gwaradwyddus na danfon y ceisbwl i'n ty i gydio yn ein dodrefn, ac efallai ein Beibl, a'u cludo ymaith i'r farchnadfa i'w gwerthu ar *auction*, a hyny yn enw crefydd! Ai hyn yw'r ffordd i gynal crefydd Crist? A ydyw crefydd Crist, er mwyn ei chynal yn y byd, yn gofyn i ddynion gael eu carcharu, i'w bywoliaeth gael ei distrywio, ac i'w teuluoedd gael eu dwyn i dylodi! Iesu Bendigedig, ai yn dy enw di y gwneir hyn! Tydi, yr hwn ni ddeuaist i ddistrywio dynion, ond i'w hachub! Tydi, yr hwn wyt aeddfwyn o galon, ac mor dirion fel na thori y gorsen ysig! Yr ydym yn dra sicr na foddlona y wlad i ddim llai na diddymiad y dreth eglwys, ac os na wna ysgrif Mr. Gladstone hyn, bydd yn rhaid iddi hithau, fel llawer o'i blaen, fyned i feddrod y *Capulets*.

Cwrdd Cwarter y Pasc.—Cynhelir y cwrdd yn y Cribin, ger Llanbedr, yn wythnos y Pasc, sef dydd Mercher a dydd Iau, y 15 a'r 16 o fis Ebrill. Taer ddymunir ar bawb o'r gweinidogion i fod yn bresenol. Bydd groesaw hefyd i bawb dieithriaid a ddewisant ddyfod i'r cwrdd. Y Parch. R. J. Jones, A.C., o Aberdâr, sydd i bregethu. Pwnc y gynadledd yw yr etholedigaeth a sonir am dani gan Paul yn y nawfed benod o'r Rhufeiniaid.

Ionawr 29, yn Nghapel Caeronen, priodwyd Mr. Evan Jones, o'r Westy, Cwmman, ger Llanbedr, â Miss Mary Evans, o'r Fountain.

Ionawr 13, yn 75 oed, ar ol maith a dihoenus gystudd, Eleanor Jones, Pendre, Llandyssul. Hi oedd aelod henaf Llwynrhydowen ar y pryd, a chladdwyd hi yn mynwent y capel, pryd y pregethodd y gweinidog ar Matthew vii. 21-23, i dyrfa anarferol o luosog. Yr oedd y fam hon yn Israel yn caru dyoddef a gweithredu yn ddistaw heb ofni dim yn fwy na thynu sylw'r byd. Yr oedd yn dwyn mawr sel dros grefydd, yn ol arfer yr hen Gristionogion, ac yn credu fod a fynai'r bywyd hwn a'r bywyd sydd wrth ein drysau oll. Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth.

Ionawr 18, Rachel, trydedd ferch Anthony Davies, Coedmorfawr, ger Llanbedr, yn 45 oed. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynol yn Cellan, lle yr oedd ei hanwyl fam a dau frawd iddi wedi eu claddu o'r blaen. Cyn cychwyn o'r tŷ, pregethodd y Parch. D. Evans, Caeronen, oddiwrth 2 Cor. i. 2, 3. Na fydded i'w thad oedranus, a'i brodyr a'i chwiorydd, sydd yn teimlo hiraeth mawr ar ei hol, alaru fel rhai diobaith. Bydded iddynt ymddiried yn yr Hwn sydd yn ein dyddanu ni yn ein holl orthrymder. Yr Arglwydd a roddodd, efe hefyd a gymerodd ymaith.

Dysg yn Nghymru.—A ganlyn sydd gyfysgrif gywir o *fill* a roddodd saer coed i'w feistr, hyd at yr enwau, y rhai a adawir allan am y rheswm ag y mae y darllenydd yn ei wybod. Yr oedd wedi ei ysgrifenu ar ddalen o bapyr unplyg, a llinellau yr £ s. d. wedi eu gosod fyny ar draws y ddalen yn agos i haner ei lled. Defnyddir y lle gwag yr ochr arall er mwyn egluro y llinellau; heb wneuthur hyn buasent yn annealladwy i'r darllenydd, Pwy bynag a amheuo ei eirwiredd all gael golwg ar y gynysgrif trwy olygydd yr Ymofynydd, os cymer hyny o drafferth.

———Rin (yr Inn), two ———, Carpntr.

			D.	
Pn rhaga harn	.	.	1	Pen rhacan haiarn.
16 Mawrth, llifo poston tulk	.	£	6	Llifo postion twlc.
30 Mawrth, Quartr diwrnod	.		6	Quarter diwrnod
23 Ebrell, helb trws Countr	.		3	Helpu drws Counter.
13 Mai, hoss tillad	.	2	0	Horse dillad.
18 Mai, gnid 3 llathed	.		3	Gwneyd tair llathen.
29 Mai, —— in trawslefo	.		6	—— yn trawslifo.
Gorfenaf, pedwar pn rhaga	.		3	Pedwar pen rhacan.
,, Danedy pedwar pen		1	5	Daneddu pedwar pen.
29 Gorfenaf, help Wilpr furthe Gagane	.	.	6	Helpu whilber a ffyrch rhacanau.
15 Awst, box y harn presso	.		3	Box i haiarn presso.
2 Medi, gos gaip a help stol	.		7	Coes caib a helpu stôl.
15 Medi, in duarnod for miself and ——	.	3		Un diwrnod i mi a ——
19 M, gos puel	.		3	Coes bwyell.
Sliprs tske ydamos	.	1		Slips Desk i Thomas.
21 Tachwedd. —— in diwrnod	.	1		—— Un diwrnod.
7 Rhagfyr, gos puel	.		3	Coes bwyell.
Medi, llifo plenkin poRe	.		6	Llifo plencyn, boreu.
		12	9	

[Dysg yn Lloegr sydd lawn mor belled yn ol.—Gol.]

Dysgeb pan yn ieuanc, os gellir, nad ydyw hapusrwydd oddi allan, ond oddi mewn. Y mae calon dda a chydwybod glir yn cynnyrchu hapusrwydd; yr hyn nad ydyw cyfoeth ac amgylchiadau yn unig byth yn ei wneyd.

ARGRAFFWYD GAN EDWARD JOSEPH, HEOL-MANSEL, CAERFYRDDIN.